**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

# Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ragolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru

Mai 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

# Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ragolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru

Mai 2012

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Sefydlodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys pedwar Aelod i ystyried rhagolygon ar gyfer dyfodol cyfryngau amrywiol yng Nghymru ac adrodd yn ôl ar y mater. Aelodau'r grŵp oedd Ken Skates (Cadeirydd), Peter Black, Janet Finch-Saunders a Bethan Jenkins. Cyfarfu'r grŵp rhwng mis Hydref 2011 a mis Ionawr 2012.

**Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen**



**Ken Skates (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
De Clwyd



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Janet Finch-Saunders**
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru

## Cynnwys

**Argymhellion** 5

**1. Cyflwyniad** 8

**2. Cyfeiriad strategol ac atebolrwydd** 10

Cyflwyniad 10

Rôl Llywodraeth Cymru o ran polisi cyfryngau 10

Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu polisi cyfryngau 11

Capasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau 13

Ymateb Llywodraeth Cymru i broses yr Adolygiad Cyfathrebu 15

Atebolrwydd, craffu a llywodraethu yn gyffredinol 17

Atebolrwydd y sefydliadau darlledu mawr 20

Sefydlu gweithgor/pwyllgor 22

Yr angen i fonitro a mapio'r cyfryngau yng Nghymru 23

**3. Materion ynghylch darlledwyr a chyfryngau unigol** 28

Cyflwyniad 28

Dyfodol y BBC yng Nghymru 28

Dyfodol S4C 30

Ofcom 32

ITV Cymru a dyfodol trwydded Sianel 3 yng Nghymru 34

Channel 4 38

Y sector cynhyrchu teledu annibynnol 39

Radio 40

Y cyfryngau print yng Nghymru 46

Teledu lleol 55

**4. Y diwydiannau creadigol, modelau busnes newydd a chymorth busnes** 58

Cyflwyniad 58

Darpariaeth band eang 58

Adolygiad Hargreaves 59

Cymorth busnes ar gyfer cwmnïau cyfryngau newydd a meithrin arloesedd 62

Cydweithio a chael un ganolfan i'r cyfryngau yng Nghymru ................................ 67
Hawliau eiddo deallusol ................................................................................ 70
Sgiliau a hyfforddiant .................................................................................. 73
**Tystion** ................................................................................................ **79**
**Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ........................................................... **82**

## Argymhellion

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Dylai'r fforwm hwn ddefnyddio arbenigedd o bob rhan o sectorau'r cyfryngau. Dylai ei ddiben fod i edrych i'r dyfodol ac i gynghori ar faterion ar draws pob rhan o'r cyfryngau. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg annibynnol i fapio anghenion pobl Cymru o ran y cyfryngau. Dylai'r arolwg hwn lywio polisi ar y cyfryngau ar draws pob sector, gan gynnwys technolegau presennol a rhai sy'n datblygu. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cymryd rhan llawn a rhagweithiol ym mhroses y Bil Cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu anghenion Cymru. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gryfhau'r cysylltiadau ar draws ei hadrannau i sicrhau y gellir cael y budd economaidd a diwylliannol mwyaf o sectorau'r cyfryngau. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 5:** Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol arolygu'r mater o ddatganoli darlledu yng Nghymru yn barhaus a chynghori Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocol gyda Llywodraeth y DU ar gyfer ymdrin â materion darlledu nas datganolwyd. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 7:** Dylai pwyllgor perthnasol y Cynulliad wahodd Ofcom, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr allweddol eraill yn y cyfryngau i adrodd i'r pwyllgor ar eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiadau i Gymru yn flynyddol. (Tudalen 27)

**Argymhelliad 8:** Dylai Pwyllgor y Cynulliad adolygu faint o sylw a roir i wleidyddiaeth gan BBC Cymru yn barhaus, yn arbennig yn sgîl toriadau i'r gyllideb mewn adrannau perthnasol. (Tudalen 30)

**Argymhelliad 9:** Dylai Pwyllgor y Cynulliad adolygu trefniadau ariannu S4C yn barhaus er mwyn sicrhau bod y setliad ariannol yn addas; a pharhau i adolygu unrhyw gynigion i newid natur y setliad yn y dyfodol. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ac i Ofcom yn nodi mai darpariaethau presennol trwydded Sianel 3 ddylai fod y gofynion lleiaf ar gyfer adnewyddu'r drwydded. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, ar adeg briodol, ar gyfer cyflwyno trwydded Sianel 3 sy'n benodol i Gymru. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 12:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd i weithio'n fwy effeithiol gyda Channel 4 i gefnogi cwmnïau Cymru. (Tudalen 39)

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effaith y toriadau yn y gyllideb ar y sector cynhyrchu teledu annibynnol yn barhaus a chanfod ffyrdd newydd o ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r sector. (Tudalen 40)

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyrhaeddiad o 97% yng Nghymru cyn y newid i ddigidol. (Tudalen 46)

**Argymhelliad 15:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru. (Tudalen 46)

**Argymhelliad 16:** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gynnwys dyletswyddau iaith Gymraeg penodol ar gyfer Ofcom yn y Bil Cyfathrebu. (Tudalen 46)

**Argymhelliad 17:** Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer y cyfryngau print yng Nghymru. (Tudalen 55)

**Argymhelliad 18:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa i ymgysylltu â chwmnïau papur newydd fel y gellir rhoi mesurau ymarferol ar waith os daw'n amlwg y bydd nifer sylweddol o swyddi yn cael eu colli, neu os bydd papurau newydd yn cau. (Tudalen 55)

**Argymhelliad 19:** Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fwrw ymlaen gydag argymhellion adolygiad Hargreaves, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gynnydd yn rheolaidd. (Tudalen 77)

**Argymhelliad 20:** Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gyfathrebu pwrpas a rôl ei phanel Sector Diwydiannau Creadigol i randdeiliaid. (Tudalen 78)

**Argymhelliad 21:** Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau addysg uwch, i annog arloesi ac i feithrin modelau busnes newydd. (Tudalen 78)

**Argymhelliad 22:** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynigion gan Lywodraeth y DU i newid cyfreithiau mewn perthynas â hawliau eiddo deallusol a dylai wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn nodi y dylai unrhyw newidiadau fod yn addas ar gyfer anghenion Cymru. (Tudalen 78)

**Argymhelliad 23:** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull strategol o ddarparu hyfforddiant, ochr yn ochr â'i bolisïau eraill, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Cymru Ddigidol. (Tudalen 78)

*Mae nifer o argymhellion y Grŵp yn ymwneud â sefydlu fforwm annibynnol a gwaith y fforwm hwnnw.*

*Os nad yw Llywodraeth Cymru'n dewis derbyn yr argymhellion i sefydlu fforwm annibynnol, dylid dehongli cyfeiriadau at y fforwm mewn argymhellion dilynol fel cyfeiriad at Lywodraeth Cymru.*

*O dan yr amgylchiadau hyn, byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen â'r argymhellion ac adrodd yn ôl i'r Cynulliad ar gynnydd ar y cyfle cyntaf.*

# 1. Cyflwyniad

1. Ar 29 Medi 2011, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gynnal ymchwiliad i ddyfodol y cyfryngau yng Nghymru.

***Cylch gorchwyl yr ymchwiliad***

2. Cytunwyd ar yr hyn a ganlyn yn gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

> "Edrych ar y rhagolygon ar gyfer gwahanol lwyfannau'r cyfryngau yng Nghymru drwy ystyried:
>
> - cyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru a'r effaith y mae technoleg newydd a datblygiadau eraill yn eu cael ar hyn, yng nghyd-destun pryderon parhaus ynghylch dyfodol y cyfryngau darlledu a phrint yng Nghymru;
> - beth ddylai'r blaenoriaethau fod o safbwynt Cymru wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer ei Bil cyfathrebu;
> - y cyfleoedd ar gyfer adeiladu modelau busnes newydd ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru;
> - beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi argymhellion adroddiad Hargreaves ar waith a pha gamau eraill y gellid eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru o ran cynnwys a phlwraliaeth y ddarpariaeth."

***Dull***

3. Cyhoeddwyd galwad am dystiolaeth ar 29 Medi 2011. Daeth 45 o gyflwyniadau ysgrifenedig i law. Gellir dod o hyd i'r cyflwyniadau ysgrifenedig yma.[1]

4. Gwahoddwyd tystion i roi tystiolaeth ysgrifenedig mewn pum cyfarfod. Gellir dod o hyd i fanylion y tystion a ymddangosodd, trawsgrifiadau'r cyfarfodydd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiadau A, B ac C.

5. Ar 28 Tachwedd, cynhaliodd aelodau'r Grŵp drafodaeth ar-lein â blogwyr a chynrychiolwyr gwefannau newyddion hyperleol.

[1] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1787

6. Mae agendâu, papurau a thrawsgrifiadau pob cyfarfod ar gael yn llawn ar dudalennau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gellir eu gweld yma.[2]

[2] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1787

# 2. Cyfeiriad strategol ac atebolrwydd

## Cyflwyniad

7. Yn y bennod hon, byddwn yn mynd i'r afael ag un o'r prif faterion a godwyd â'r grŵp mewn tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, sef cyfeiriad strategol ac atebolrwydd o ran y cyfryngau yng Nghymru. Mae'r penodau dilynol yn ymdrin â materion sy'n benodol i sectorau unigol yn y cyfryngau.

8. Dyma'r materion fydd y bennod hon yn ymdrin â hwy:

- Rôl Llywodraeth Cymru o ran polisi cyfryngau;
- Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu polisi cyfryngau;
- Capasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau;
- Effaith y Bil cyfathrebu;
- Materion atebolrwydd; ac
- Yr angen i fonitro a mapio'r cyfryngau.

## Rôl Llywodraeth Cymru o ran polisi cyfryngau

9. Yn ystod ein hymchwiliad, mynegwyd pryderon gan nifer o dystion ynglŷn a'r graddau roedd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â pholisi cyfryngau. Dywedodd yr Athro Steve Blandford:

> "I should say very clearly that I have been in favour of the Welsh Government involving itself in ways that go well beyond the existing framework for the regulation of broadcasting."[3]

10. Pwysleisiodd y Sefydliad Materion Cymreig (IWA) frys y mater a'i berthnasedd i'r Cynulliad yn ogystal ag i gymdeithas sifig ehangach Cymru:

> "The point is that we can no longer afford to stand back. We have substantial amounts to gain, in cultural and economic development terms, in getting involved now... .The issue there is that unless there is a serious effort to create some locus for the Assembly and the Welsh Government on media issues, Wales will not be part of the debate and will not be listened to."[4]

---

[3] Tystiolaeth lafar, 12.10.2011
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf
[4] Tystiolaeth lafar, 01.12.2011,
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4635/1%20December%202011.pdf

11. Amlinellodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth farn Llywodraeth Cymru am y materion hynny:

> "The First Minister has been at the forefront of co-ordinating those inter-ministerial conversations and all that communication. Since the last Assembly elections there has been such turmoil on this agenda, particularly surrounding the BBC and S4C, that the priority has been to get through this difficult period and to break into a period of stability, and to do everything that we can to make that happen. I would like to think that the Welsh Government punched above its weight in terms of the contribution that it made towards getting a final, stable situation. We are there now. It is not a pretty situation, but it is stable one. We have stability of management and predictability of funding, at least for a few years. We are now in a position to truly start to construct consensus around what we are asking for, as a Welsh public community. I must emphasise that this is not a devolved matter. My relationship with your inquiry, in that regard, is not as it normally might be. I am a part of the consensus building, and I am not in a position to be responding to a list of wants and needs presented to me. I am a part of the lobby on broadcasting that Wales needs to construct."[5]

## Y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cydlynu polisi cyfryngau

12. Mynegodd nifer o sylwebwyr bryderon nad yw Llywodraeth Cymru yn ystyried diwydiannau'r cyfryngau yn sector sydd â buddion economaidd a diwylliannol. Yn ôl Richie Turner:

> "Rhaid i Lywodraeth Cymru beidio â chilio i sefyllfa sydd wedi'i gor-symleiddio lle caiff ein diwydiant cyfryngol ei gefnogi fel gyrrwr economaidd yn unig. Mae angen i ni fod yn glir y dylid darparu rhywfaint, os nad y cyfan o'n cynnwys cyfryngol i uchafu ein diwylliant, ein hetifeddiaeth a'n lle yn y byd. Roedd Adroddiad Hargreaves yn ceisio pontio'r rhaniad rhwng y diwydiannau creadigol a yrrwyd gan economeg a darparwyr yn canolbwyntio ar ddiwylliant eto yn ddiweddar mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru unwaith eto yn trin y ddau ar wahân."[6]

---

[5] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf
[6] Y Wasg 29, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4715/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2029%20-%20Academi%20Fyd-eang%20Prifysgol%20Cymru.pdf

13. Awgrymodd yr IWA y dylai fod gwell cydweithio o fewn Llywodraeth Cymru, a bod angen gwneud trefniadau i hwyluso hyn er mwyn sicrhau bod polisi cyfryngau yn arwain at y buddion economaidd mwyaf posibl:

> "The former Broadcasting Committee report highlighted the lack of collaboration and joined-up thinking across two, if not more, of the Government's departments, including economy and heritage. As far as we can see, that essential issue has not really been addressed. Broadcasting is still the responsibility of heritage, without the responsibility of economic development."[7]

14. Clywodd y Grŵp hefyd beth beirniadaeth bod Panel Sector y Diwydiannau Creadigol, a sefydlwyd yn dilyn Adolygiad Hargreaves, yn ymddangos fel ei fod yn canolbwyntio'n ormodol ar fuddion economaidd yn unig yn hytrach na buddion diwylliannol. Dywedodd Green Bay:

> "Put simply, the Creative Industries have the potential to 'make the weather for Wales' – they can help determine both how we see ourselves in the world and how the world sees us. Regarding them simply in economic terms underplays their importance and is likely to lead to missed opportunities."[8]

15. Cydnabu Ron Jones bod dylanwad Panel Sector y Diwydiannau Creadigol yn gyfyngedig o ran canolbwyntio'n benodol ar y cyfryngau. Gan nad yw darlledu wedi'i ddatganoli ac yn gyfrifoldeb yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth, mae prif gylch gwaith y panel yn ymwneud ag effaith economaidd y cyfryngau yng Nghymru. Ailadroddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y pwynt hwn:

> "A lot of people are focused on cultural issues across Wales. My panel is the only panel that has really focused on issues to do with economic development within the sector, which you would expect it to do [...] We work well with culture officials and other organisations, but our aim is to create jobs, future investment and sustainability in all the creative industries sectors that we cover."[9]

---

[7] Tystiolaeth lafar, 01.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4635/1%20December%202011.pdf
[8] Y Wasg 23, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4709/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2023%20-%20Green%20Bay%20Saesneg%20yn%20unig.pdf
[9] Tystiolaeth lafar, 07.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4634/7%20December%202011.pdf

16. Dywedodd Ron Jones hefyd bod cydlyniant o fewn Llywodraeth Cymru yn well erbyn hyn nag a fu yn yn y gorffennol:

> "To some extent, we find ourselves prisoners of history on this one. In the days before devolution, there was a linkage between the local department and DCMS. That linkage remains, because it is a reserved matter. Refreshingly, in the last six to nine months, the two Welsh Ministers involved have really taken the issue on board, partly as a result of a lack of co-ordination in dealing with the obvious problems of S4C. There is a realisation that the two departments need to work together closely. Clearly, there is the whole content issue: we need the content that serves Wales but then we need to ensure that we get the maximum economic value from it. The reality is that the expertise to handle both issues sits across the departments. The Ministers have come together and agreed that a subpanel will now be available to advise both departments on broadcasting, both on the content and economic side, and that seems to make sense. I genuinely think that it is an accident of history that no-one ever bothered to put right. However, I sense that, with the present Ministers, we are well on the way to getting that sorted. I am seeing, for the first time, much more co-operation between Natasha on behalf of the Department for Business, Enterprise, Technology and Science and John Howells in heritage as we begin to try to develop a Team Wales approach to it."[10]

### Capasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau

17. Pwysleisiodd yr IWA fod newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol sylweddol ar y gorwel i'r cyfryngau yng Nghymru, sef adnewyddu trwyddedau Sianel 3 yn 2013; Bil cyfathrebu newydd erbyn 2015; ac adnewyddu Siarter y BBC yn 2016-17. Mae technoleg a pholisi cyfryngau yn symud yn gyflym, ond mynegodd yr IWA bryderon am ddiffyg capasiti yng Nghymru i symud cyn gyflymed â'r newidiadau.

18. Roedd yr IWA yn bryderus yn benodol am ddiffyg capasisti ymysg y gwasanaeth sifil Cymreig a bod hyn yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru ddadansoddi newidiadau a datblygu'r gallu i ragweld a llunio datblygiadau yn y cyfryngau yng Nghymru. O'r herwydd, dylid cryfhau capasiti adran dreftadaeth Llywodraeth Cymru i roi cyngor arbenigol i Weinidogion ar bolisi cyfryngau. Mewn tystiolaeth, dywedodd Hywel Wiliam o'r IWA:

[10] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

"Yr wyf yn credu'n gryf bod angen i'r Llywodraeth edrych yn ofalus ar yr holl ystod o gwestiynau ynglŷn â'r cyfryngau yng Nghymru a'r diwydiant yn gyffredinol. Fel arall, bydd yn colli'r cyfle i fod yn rhan o'r drafodaeth a'r cyfle i ddatblygu polisïau penodol ar gyfer Cymru. Mae hyn yn hanfodol bwysig, nid yn unig o safbwynt treftadaeth ond hefyd o safbwynt datblygu polisïau economaidd cryf ar gyfer y dyfodol.

"Yr ydym o'r farn bod angen cryfhau'r adnoddau sydd gan y gweision sifil.

"Yr ydym eisiau gweld mwy o allu i edrych ar y meysydd hyn yn annibynnol a'u hasesu, gyda mwy o waith monitro gan y Llywodraeth a'i swyddogion."[11]

19. Cyfeiriodd Cube Interactive at dwf 'teledu cysylltieidg' fel *YouView* a chwestiynodd a oedd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol yn y cyd-destun hwn:

"We can expect this to generate another impetus to audience fragmentation, as occurred with the introduction of digital TV. Without regulatory preference to help build awareness and audience share, should we therefore anticipate a further marginalisation of content from and about Wales; and if so, is there any suitable policy response from the Welsh Government?"[12]

20. Pan ofynwyd am gapasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau, dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth:

"In terms of capacity, it would be difficult, given that broadcasting is not devolved, to justify to the Welsh public purse a broadcasting department within the Welsh Government. Expertise and personnel are brought in as and when they are needed, but I would not judge, as the Minister responsible for that activity, that we have had a capacity problem. The capacity has been fine, but I do not have a broadcasting department with dozens of civil servants, and nor should I."[13]

---

[11] Tystiolaeth lafar, 01.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4635/1%20December%202011.pdf
[12] Y Wasg 35, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4721/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2035%20-%20Cube%20Interactive%20Saesneg%20yn%20unig.pdf
[13] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

**Ymateb Llywodraeth Cymru i broses yr Adolygiad Cyfathrebu**

21. Cyfeiriodd nifer o dystion at yr effaith y gall Bil cyfathrebu y DU ei gael ar y cyfryngau yng Nghymru. Pwysleisiodd yr IWA y gallai'r Bil newid y tirwedd cyfryngol a diwylliannol yn sylfaenol. Roedd y materion a fydd yn effeithio ar Gymru yn uniongyrchol ac a godwyd â'r grŵp yn cynnwys: dyfodol trwyddedau Sianel 3; seiliau statudol S4C; cwotâu cynhyrchiadau teledu i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; trwyddedu radio, lleoleiddio a'r gallu i orfodi gofynion ieithyddol; dyfodol radio cymunedol; rheolau perchnogaeth traws-gyfryngol; fframwaith rheoleiddio sy'n cydnabod cydgyfeiriad teledu a'r rhyngrwyd; a gofyniadau'r dyfodol o ran cydbwysedd a bod yn ddi-duedd.

22. Cododd rai tystion gwestiynau am ddull Llywodraeth Cymru o ymateb i gynigion Llywodraeth y DU. Dywedodd yr Athro Ian Hargreaves:

> "The communications Bill represents an opportunity for the Welsh Government to propose a revision of the settlement with regard to broadcasting. I am, and have been for a long time, an unapologetic advocate of the Welsh Assembly Government—now the Welsh Government—involving itself more in these matters.
>
> "It is time for the Welsh Government, carefully, and in a very considered manner, to work out what the next stage of the game is here. In my view, the next stage of the game must involve the Welsh Government more than it currently does. That is for two reasons. One is because of the democratic importance of the media, which needs no further explanation. The other is that the media is a hugely important part of the creative economy of Wales."[14]

23. Dywedodd Ron Jones, "os nad yw Cymru yn ymladd ei hachos byddwn yn colli allan" a dywedodd y dylai Llywodraeth Cymru "ddod o hyd i ddull rhesymegol deallusol o fynnu i fod yn rhan o hyn." Mynegodd yr IWA bryderon am hyn hefyd:

> "Fundamental to the whole issue is the Welsh requirements. Unless we, this group and the Welsh Government strongly feed in a view about what those requirements might be, we are going to be by-passed.
>
> "One of the fundamental things that we highlighted is the lack of capacity within Government to deal with this. We highlighted the fact that Ofcom had 140 consultations in the last year to 18 months, and I think that the Welsh Government responded to no more than four or five of them [...]

[14] Tystiolaeth lafar, 13.10.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf

> that reflects the lack of capacity [...] Partly because it is not clearly devolved, people do not think, perhaps, that it is their responsibility. However, it has a huge impact on what we do. I go back to the fundamental issue that one of the problems is the divorce between responsibility for broadcasting and economic development. It is fundamentally naive and misguided to sustain that separation."[15]

24. Awgrymodd yr Athro O'Malley y gallai Llywodraeth Cymru, er mwyn gwrthsefyll pwyslais direoleiddiol y polisi disgwyliedig yn y Bil cyfathrebu, sefydlu Uned Ymchwil y Bil Cyfathrebu, a fyddai'n cysgodi datblygiadau yn y Bil, cynghori Llywodraeth Cymru, cefnogi Aelodau Seneddol ac Arglwyddi o Gymru yn ystod taith y Bil trwy'r Senedd a chynnal yr ymchwil angenrheidiol i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cael mewnbwn llawn a manwl o Gymru.

25. Pan ofynnwyd am ymateb strategol Llywodraeth Cymru i broses Bil cyfathrebu Llywodraeth y DU, dywedodd y Gweinidog Tai, Adfwyio a Threftadaeth:

> "The Welsh Government will also engage closely with DCMS on a number of these key issues and will continue to contribute constructively to ensure that the new Communication Act meets the needs of Wales."[16]

26. Ymhelaethodd:

> "All of the appropriate steps have been taken. There was the response to the consultation process last summer, and officials have had ongoing contact with DCMS since then."[17]

27. Dywedodd un o'i swyddogion:

> "We think that we put forward a comprehensive response to the initial consultation, but as has been said, this is a process, not an event. The challenge for us is to remain alongside all of the work streams as they develop. It may be that we could be making more of a public noise. We are represented on the digital radio work stream because of our concern about the digital switchover. I do not think that this panel has given much consideration to our heavy involvement in the discussions around

---

[15] Tystiolaeth lafar, 01.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4635/1%20December%202011.pdf

[16] Y Wasg 43, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4729/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2043%20-%20Huw%20Lewis%20AC,%20Y%20Gweinidog%20Tai,%20Adfywio%20a%20Threftadaeth.pdf

[17] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

broadband roll out, because that is a key priority of the communications Bill and of the Welsh Government. We have been actively involved there. We have not been that active on the public service broadcasting side. We are not aware of there being a distinct agenda there yet, but we are in touch with DCMS officials, who keep us in touch with the developments as they come through."[18]

**Atebolrwydd, craffu a llywodraethu yn gyffredinol**

28. Cododd nifer o dystion y dylid cael rhyw elfen o ddatganoli ym maes darlledu neu bolisi cyfryngau. Dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr fod angen brys i edrych ar yr holl fater o ble mae pwerau dros ddarlledu'n gorwedd:

> "Drastic decisions relating to the future of the media in Wales have taken place recently without any consultation or consent among the Welsh people. How and by whom can the Welsh media be called to account? Issues of governance and scrutiny must be addressed as a matter of extreme urgency in order to protect the Welsh economy, Welsh livelihoods, cultural identity and to address the worsening democratic deficit in the country's media."[19]

29. Dywedodd yr Athro O'Malley:

> "It is now time that communications policy be devolved in large part to the Welsh Assembly Government acting through the National Assembly. It is perfectly possible to maintain essential economies of scale across the UK, and to allow for the proper implementation of any cross UK frequency and funding issues, whilst at the same time allowing WAG and the NAFW a greater say in key issues."[20]

30. Dywedodd yr Athro Ian Hargreaves:

> "There is some enhanced federal opportunity available here [...] Devolution demands that the governance of public service broadcasting reflects, to a

---

[18] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

[19] Y Wasg 31, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4717/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2031%20-%20Undeb%20Cenedlaethol%20y%20Newyddiadurwyr,%20Cymru%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

[20] Y Wasg 08, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4155/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2008%20-%20Yr%20Athro%20T%20P%20OMalley%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

> greater extent than perhaps was appropriate 10 years ago, the fact of the devolved Governments in Scotland, Wales and Northern Ireland."[21]

31. Pwysleisiodd Ron Jones mai un o'r problemau sy'n wynebu'r cyfryngau yng Nghymru yw diffyg atebolrwydd i Gymru, sy'n anghynaliadwy, meddai. O ran datganoli pwerau yn y maes hwn, dywedodd yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

> "Mater o farn wleidyddol yw a ddylai darlledu fod yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, mae rheswm cryf dros ddadlau y byddai yn haws cynnal proses graffu ystyrlon ac effeithiol well ar lefel leol er mwyn gofalu am fuddiannau cyffredinol Llywodraeth Cymru, y Cynulliad, ein darlledwyr lleol a'r gynulleidfa. O ran darlledu yn yr iaith Gymraeg, mae cymhlethdodau cyfansoddiadol sy'n gwneud y ddadl hyd yn oed yn gryfach."[22]

32. Ymhelaethodd ar hyn yn ei dystiolaeth lafar i'r grŵp:

> "Realistically, it is not going to be politically deliverable. That is what I am saying on the devolution of broadcasting. Having said that, we have to accept that Wales, potentially, has huge advantages from a UK structure for public service broadcasting. Our people benefit enormously from public service broadcasting provided across the UK. So, there is always going to be that interconnection. My view is that we need to look at a structure that works for the whole series of significant rearrangements of broadcasting over the next several years, and that includes ITV's licence, the future of S4C, the charter for the BBC and local television. Constitutionally—this will start with law and end up with politics—it is up to you as an Assembly and the Welsh Government to come up with a way that works for you. As a panel, with the help of the Ministers, we will shortly be looking at the present arrangement, and how they can be made to work better. This will only be possible by political good will from London and Cardiff. It is not something that you or we have the power to impose. However, I sense that there will be no better time to try to get these arrangements in place."[23]

33. Aeth Ron Jones ymlaen i ddweud bod datblygiadau yn S4C yn enghraifft ddiddorol o'r ffordd nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio i Gymru a bod naratif debyg yn berthnasol i ITV a'r BBC hefyd. Am y rheswm hwn, dywedodd Ron

---

[21] Tystiolaeth lafar, 13.10.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf
[22] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4747/Media4-06-12p2.html?CT=2
[23] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

Jones fod angen cytundeb cadarn rhwng Llundain a Chaerdydd ar fater nad yw wedi'i ddatganoli ond sydd o ddiddordeb canolog i Gymru. Yn yr un modd, dywedodd TAC:

> "Although it is clear for now that the UK government will continue to have a role in S4C's future, TAC would welcome the establishment of a more formal relationship between the DCMS and the WAG over S4C and Welsh broadcasting in general, in order to inform DCMS and keep regular review on the agenda [...] This relationship would also allow the Welsh Assembly Government to have a context in which to ask some important question [...]."[24]

34. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, er nad yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylai'r cyfrifoldeb dros ddarlledu gael ei ddatganoli, y bydd y Llywodraeth yn dymuno codi'r mater â Llywodraeth y DU o sut y gellir sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng S4C – ac, yn wir, ddarlledwyr eraill yng Nghymru – a'r Cynulliad Cenedlaethol. Soniodd hefyd bod ymrwymiad yn y *Rhaglen Lywodraethu* i "bwyso am i ddarlledwyr a'r rheoleiddiwr adrodd yn flynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gydag Ofcom, BBC/S4C, ITV Channel 4 yn adrodd yn flynyddol i bwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru". Gan gyfeirio'n benodol at ddatganoli pwerau, dywedodd:

> "Bu datganoli S4C a darlledu yn gyffredinol yn bwnc llosg yn ddiweddar. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig datganoli S4C. Ni fyddai'n gwneud synnwyr i ni, fel Llywodraeth, fod yn gyfrifol am S4C heb gael sicrwydd bod Llywodraeth y DU yn trosglwyddo'r arian priodol hefyd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd ddarlledu yn newid yn gyflym ac nid oes sicrwydd y bydd y strwythurau sydd ar waith nawr yn parhau yn y dyfodol."[25]

35. Ymhelaethodd ar hyn yn ei dystiolaeth lafar:

> "We are very clear as a Welsh Government that we want to see better lines of accountability in terms of Welsh-based broadcasting, but this is not purely a question for the Welsh Government—this is a question for the Assembly as a whole. While broadcasting remains non-devolved, although I

---

[24] Y Wasg 28, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4714/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2028%20-%20Teledwyr%20Annibynnol%20Cymu%20TAC%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

[25] Y Wasg 43, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4729/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2043%20-%20Huw%20Lewis%20AC,%20Y%20Gweinidog%20Tai,%20Adfywio%20a%20Threftadaeth.pdf

may be the Welsh Government Minister with responsibility for broadcasting issues, I have none of the levers of budgeting and control over those policies. So, it is a question of us as a Welsh public community—the Assembly, the Welsh Government, those partners out there, as well as the regulator—to start discussing how we can make a reality out of what is a cross-party commitment to better lines of communication and accountability—particularly with regards to S4C, but also with regard to the other broadcasters—and to put some flesh on those bones.

"That is what it boils down to: what do we want here in Wales? If we are talking about devolution, devolution of what exactly? If we are talking about accountability, accountability to whom and accountability of whom? There is not clarity. I will not pretend that there is a fixed Welsh Government view that has fallen out of the sky in the past couple of weeks that answers these issues. Again, that is why the group's work is so important."[26]

**Atebolrwydd y sefydliadau darlledu mawr**

36. Un feirniadaeth o'r sefydliadau darlledu mawr yn y DU oedd nad ydynt wedi ymateb i ddatganoli yn eu strwythurau nac yn eu hymagwedd at y cenhedloedd. Dywedodd Euryn Ogwen Williams:

"Un o'r problemau gyda'r sefydliadau traddodiadol sydd gennym yn gofalu am y cyfryngau yng Nghymru ar hyn o bryd yw nad ydynt wedi byw drwy ddatganoli eto. Maent yn dal i fyw yn y 1990au cynnar, a'r 1980au cynnar yn achos rhai. Yn sicr, nid ydynt wedi dod drwy 1999 eto. Mae sylweddoli hynny yn hollbwysig."[27]

37. Dywedodd yr Athro Steve Blandford:

"There are ways within existing structures, such as exploring the question of the BBC Trust having a Welsh sub-committee, and there being a requirement for a Welsh member of the Ofcom board and so on. However, perhaps beyond the scope of the specific communications Bill, there is quite a strong case for devolved powers over aspects of broadcasting and media regulation that go well beyond the scope of the current debate."[28]

---

[26] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf
[27] Tystiolaeth lafar, 13.10.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf
[28] Tystiolaeth lafar, 13.10.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf

38. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd Ron Jones y dylai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddiffinio eu hunion ymrwymiadau i Gymru:

> "Fy marn i yw y dylai Llywodraeth Cymru gael Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus i wneud ymrwymiad penodol i ddiffinio eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiadau i Gymru, ac mae angen inni sicrhau bod y rhain yn cael eu datblygu trwy drafodaeth agored a chyhoeddus o'r materion dan sylw."[29]

39. Dywedodd y dylai'r datganiadau hyn o atebolrwydd gael eu gwneud ar ben dyletswyddau statudol y darlledwyr a'u dyletswyddau ar lefel y DU ac, oherwydd ei bwysigrwydd fel gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, bod brys mawr i gael cytundeb â'r BBC. Dywedodd yr IWA yn yr un modd:

> "[...] it would be great if the Welsh Government could pursue and develop a formal framework for accountability, in as much as that would be possible, whereby the broadcasters, regulators and others would report formally to the National Assembly about progress on an annual basis. That formal framework is not in place, but given both the cultural and the economic development imperatives we think that it would be fully justified."[30]

40. Ar y mater hwn, dywedodd Ofcom:

> "The Ofcom Chairman and Chief Executive have previously offered to appear before a National Assembly scrutiny committee on an annual basis to answer questions on developments within our remit. We would welcome a similar move by public service broadcasters if they chose to accept an invitation to appear before an appropriate scrutiny committee of the National Assembly for Wales and if they chose to submit a report on their responsibilities and commitments towards Wales."

41. Mae *Rhaglen Lywodraethu* Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i bwyso ar ddarlledwyr ac Ofcom i adrodd yn flynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth sut y byddai'r ymrwymiad hwnnw yn cael ei gyflawni, dywedodd:

> "[...] I cannot deliver it myself.
>
> "[...] I cannot instruct civil servants to make that happen. That is not my relationship with broadcasting. It is non-devolved. The Welsh Government could seek the wider support of the Assembly, because the line of

[29] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4747/Media4-06-12p2.pdf
[30] Tystiolaeth lafar, 01.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4635/1%20December%202011.pdf

accountability does not lead directly to me as a Minister. I am not the accountable Minister.

"The Assembly as a whole is the body to which the line of accountability extends—the Assembly's committee system in particular. If and when broadcasting is devolved, you will have a Minister in the Assembly to push those buttons, but that situation does not exist at the moment."[31]

**Sefydlu gweithgor/pwyllgor**

42. Dywedodd y dylid sefydlu gweithgor i gyflwyno cynigion ar gyfer datganoli rhai o'r cyfrifoldebau o fewn sectorau'r cyfryngau a darlledu – o fewn fframwaith y DU. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r cyfrifoldeb dros S4C, radio cymunedol a thrwyddedu radio masnachol yng Nghymru. Dywedodd yr IWA y dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau consensws traws-bleidiol ar unrhyw gynigion sy'n deillio o'r gwaith hwnnw.

43. Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Thomas P O'Malley:

"In the medium term there should be a publicly funded independent advisory body, a kind of Standing Commission on Communications. It should be funded by WAG, but established so that it can act independently. It could consist of representatives, appointed by as democratic a method as possible, of people with interests and specialisms in the area, as well as people from organisations in civil society. Its job would be to analyse policy, consult widely on it and act as an independent source of advice to the politicians, a kind of counterweight to the industry lobby and the regulator, Ofcom."[32]

44. Dywedodd hefyd y dylai bod cyfrifoldeb ar y Cynulliad Cenedlaethol ei hun i sefydlu pwyllgor a allai gynnal:

"[...] on going, independent research into the media in Wales and media policy. This could feed into public debate over the forthcoming Communications Bill by engaging in widespread consultation. It could also examine in detail the ways in which powers over communications could be

[31] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf
[32] Y Wasg 08, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4155/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2008%20-%20Yr%20Athro%20T%20P%20OMalley%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

devolved to Wales. This should be done immediately by NAFW with WAG's support."[33]

**Yr angen i fonitro a mapio'r cyfryngau yng Nghymru**

45. Dywedodd yr IWA wrth y Grŵp bod angen brys i sefydlu systemau fydd yn ennyn trafodaeth barhaus ar bolisi cyfryngau yng Nghymru. Dylai'r systemau hyn hefyd greu annibyniaeth o ran llywodraethu ac arwain at gamau gweithredol. Dylent gynnwys Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU, y Cynulliad, rheoleiddwyr, darlledwyr, cynhyrchwyr a chymdeithas sifig Cymru. Dywedodd yr IWA hefyd bod angen brys ar Gymru i ddatblygu ymateb cydlynol i faterion penodol o ran technoleg, cynnwys ac ariannu yn y cyfryngau. Fel sail i hyn, awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad llawn o anghenion Cymru o ran darlledu a gwasanaethau ar-lein a datblygu technolegau.

46. Yn yr un modd, soniodd Ron Jones am gynnal adolygiad o anghenion Cymru:

> "Dros y 2 flynedd nesaf, gwelwn y Ddeddf Gyfathrebu, siarter newydd i'r BBC a thrafodaethau am drwyddedau, adnewyddu trwyddedau ITV a goblygiadau Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gwasanaethau teledu lleol newydd, adlinio cyfrifoldebau rheoleiddiol Ofcom a throsglwyddo cyllido S4C i'r BBC. Os nad yw Cymru yn ymladd ei hachos byddwn yn colli allan.
>
> "Dylai Llywodraeth Cymru lwyddo i ddod o hyd i ddull rhesymegol deallusol o fynnu i fod yn rhan o hyn. Yn benodol, gallai gynnal arolwg o beth yw anghenion Cymru o ran y byd teledu ac anghenion cysylltiedig, ac fe ddylai'r arolwg hwn fod yn bwynt cychwyn ar gyfer ein trafodaethau gyda darlledwyr ac awdurdodau eraill y DU.
>
> "Fel gwlad, mae angen inni nodi'r elfennau hynny o deledu sydd eu hangen am resymau diwylliannol, ieithyddol, cymdeithasol neu ddemocrataidd penodol Gymreig. Dylid dechrau a chytuno ar arolygon o'r fath wedi ymgynghoriad cyhoeddus llawn, a chynnwys pob un o'r rhanddeiliaid allweddol.
>
> "Buasai canlyniadau arolwg o'r fath yn llywio ein polisïau ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn sylfaen i sicrhau hefyd y bydd y darlledu hwn wedi'i strwythuro i roi cymaint o fudd economaidd â phosib."[34]

---

[33] Y Wasg 08, http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4155/Ymateb%20ir%20ymgynghoriad%20-%20Y%20Wasg%2008%20-%20Yr%20Athro%20T%20P%20OMalley%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

[34] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4747/Media4-06-12p2.html?CT=2

47. Pwysleisiodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr y dylai pwyllgorau'r Cynulliad a San Steffan graffu'n barhaus ar gyfryngau Cymru, gyda chyd-bwyllgorau os oes angen. Dylai rheolwyr ar lefel y DU sy'n gyfrifol am elfennau o'r cyfryngau yng Nghymru ymddangos gerbron y pwyllgorau hyn a bod yn atebol iddynt. Dywedodd y dylid gwneud trefniadau hefyd i gasglu data ystadegol ar gyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru.

**Ein barn ni**

48. Mae'n glir bod y cyfryngau yng Nghymru'n wynebu nifer o heriau dros y blynyddoedd i ddod. Gallwn ddisgwyl nifer o newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol, gan gynnwys ail-drwyddedu trwyddedau Sianel 3; Deddf Gyfathrebu newydd erbyn 2015; ac adnewyddu Siarter y BBC yn 2016-17.

49. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at nifer o faterion a fydd yn effeithio ar Gymru'n uniongyrchol, gan gynnwys: sylfeini statudol S4C; cwotâu cynhyrchu teledu ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; trwyddedu radio, lleoliaeth a'r gallu i orfodi gofynion ieithyddol; ffurf radio gymunedol yn y dyfodol; rheolau perchen traws-gyfryngol; fframwaith rheoleiddio sy'n cydnabod cydgyfeiriant teledu a'r rhyngrwyd; a'r gofynion yn y dyfodol ar gyfer bod yn ddiduedd a sicrhau cydbwysedd.

50. Fodd bynnag, mae technoleg yn newid mor gyflym fel ei bod yn anodd rhagweld beth fydd tirlun y cyfryngau yn y degawd nesaf.

51. Yn y cyd-destun hwn, mae'r grŵp wedi ystyried cyfeiriad strategol ac atebolrwydd.

***Cyfeiriad strategol***

52. Mae'r dystiolaeth a glywodd y grŵp yn awgrymu bod canfyddiad nad yw Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan ddigonol ym mholisi ar y cyfryngau. O ran y meysydd polisi nas datganolwyd, rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa anodd. Mae hwn yn fater o atebolrwydd, ac rydym yn mynd i'r afael â hwn yn yr adran nesaf.

53. Clywsom bryderon nad oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o gapasiti i allu datblygu dealltwriaeth lawn o'r cyfryngau yng Nghymru, a fyddai'n ei galluogi i lywio polisi ar y cyfryngau ar gyfer y dyfodol. Roedd y pryderon eraill a fynegwyd yn cynnwys diffyg ymagwedd holistaidd a chanfyddiad bod diffyg cydweithio ar draws adrannau'r Llywodraeth, ee Busnes, yr Economi, Trafnidiaeth a Threftadaeth

54. Yn ein barn ni, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys sefydlu Panel y Sector Diwydiannau Creadigol a'i is-banel ar ddarlledu, y bwriedir iddo gynghori'r adrannau Busnes a Threftadaeth. Teimlwn y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd camau i wella cydweithio o'r fath.

55. Fodd bynnag, o gofio natur a nifer yr heriau y mae'r cyfryngau yng Nghymru yn eu hwynebu, teimlwn fod angen dull i roi cyfeiriad strategol cyffredinol; er mwyn gallu rhagweld beth fydd tirlun y cyfryngau yn y dyfodol ac i lywio cyfeiriad polisi yn unol â hynny; ac i roi cyngor arbenigol i Weinidogion y Llywodraeth.

56. Ni chredwn fod gan Lywodraeth Cymru y capasiti i ddiwallu'r anghenion hyn, ac ni chredwn ei bod yn rhesymol disgwyl iddi fod â'r capasiti, o gofio nad yw'r pwerau yn y meysydd hyn wedi'u datganoli. Am y rheswm hwnnw, credwn y dylid sefydlu fforwm cynghori annibynnol i gymryd golwg strategol a holistaidd ar yr holl gyfryngau yng Nghymru, ac i allu darparu cyngor polisi annibynnol i Lywodraeth Cymru a'i phanelau sy'n benodol i'r sectorau. Dylid sefydlu'r fforwm hwn cyn gynted â phosibl, gan ymgynghori â rhanddeiliaid ar draws y sectorau cyfryngau, er mwyn rhoi cyngor ar y dull strategol a ddefnyddir ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol sydd ar ddod, yn enwedig y Bil Cyfathrebu.

57. Rydym yn cydnabod y bydd goblygiadau ariannol i sefydlu'r fforwm. Rydym yn derbyn yn llwyr ei bod yn anodd cyfiawnhau cyflwyno mesurau a fydd yn golygu costau ychwanegol mewn cyfnod lle mae cyllidebau o dan bwysau sylweddol. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd sector y cyfryngau i ddiwylliant ac economi Cymru, credwn y bydd buddsoddiad o'r fath yn arwain at fanteision sylweddol dros amser.

58. Yn ystod ein hymgynghoriad, clywsom dystiolaeth ynghylch yr angen i fapio anghenion Cymru o ran y cyfryngau. Cawsom ein perswadio bod hwn yn ddull addas ac y byddai'n darparu sail gadarn ar gyfer trafodion Llywodraeth Cymru gyda darlledwyr, darparwyr a Llywodraeth y DU, yn enwedig mewn perthynas â'r newidiadau deddfwriaethol a rheoleiddiol sydd ar ddod. Felly, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg ar anghenion Cymru o ran y cyfryngau.

**Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Dylai'r fforwm hwn ddefnyddio arbenigedd o bob rhan o sectorau'r cyfryngau. Dylai ei ddiben fod i edrych i'r dyfodol ac i gynghori ar faterion ar draws pob rhan o'r cyfryngau.**

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu arolwg annibynnol i fapio anghenion pobl Cymru o ran y cyfryngau. Dylai'r arolwg hwn lywio polisi ar y cyfryngau ar draws pob sector, gan gynnwys technolegau presennol a rhai sy'n datblygu.**

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cymryd rhan llawn a rhagweithiol ym mhroses y Bil Cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu anghenion Cymru.**

**Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gryfhau'r cysylltiadau ar draws ei hadrannau i sicrhau y gellir cael y budd economaidd a diwylliannol mwyaf o sectorau'r cyfryngau.**

### *Atebolrwydd*

59. Yn amlwg, roedd atebolrwydd, neu'r canfyddiad bod diffyg atebolrwydd, yn fater pwysig ar gyfer y mwyafrif o'r tystion. Yn wir, dywedodd nifer o dystion nad yw'r trefniadau presennol yn gynaliadwy.

60. Cyfeiriodd nifer o dystion at yr angen am rhyw fath o ddatganoli o bolisi darlledu neu bolisi ar y cyfryngau. Credwn y dylid ystyried datganoli polisi ar y cyfryngau yn yr hirdymor, ond teimlwn mai'r mater y mae angen ei ystyried gyda'r brys mwyaf yw diffyg atebolrwydd.

61. Rydym yn cydnabod nad yw polisi ar y cyfryngau, yn enwedig polisi darlledu, wedi'i ddatganoli, ond mae'r materion hyn o bwys mawr i Gymru a Llywodraeth Cymru, o ran diwylliant a'r economi. Yn ystod ein hymgynghoriad, clywsom dystiolaeth ynghylch anawsterau Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion darlledu a'r cyfryngau. Enghraifft o hyn yw'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag S4C, teledu lleol, a'r dull o ymdrin â'r Bil Cyfathrebu. Teimlwn fod angen cryfhau'r berthynas hon i fynd i'r afael â'r diffyg atebolrwydd democrataidd. Credwn felly y dylai Llywodraethau Cymru a'r DU ddatblygu protocol ar gyfer ymdrin â materion nas datganolwyd yn ymwneud â'r cyfryngau yng Nghymru. Gofynnwn i'r Gweinidog perthnasol adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed cyn gynted â phosibl.

62. O ran atebolrwydd i'r Cynulliad, dywedodd nifer o dystion wrth y grŵp ei bod yn bwysig bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheolydd yn adrodd i'r Cynulliad. Roeddem yn falch bod Ofcom wedi ailadrodd ei gynnig i ddod gerbron Pwyllgor Cynulliad yn flynyddol a bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cefnogi'r cynnig i raddau helaeth.

63. Felly, teimlwn y dylid gwahodd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r rheolydd, fel cam cadarnhaol tuag at wella atebolrwydd, i ymddangos gerbron Pwyllgor Cynulliad yn flynyddol. Fel rhan o'r broses hon o adrodd i'r Cynulliad, dylai pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus amlinellu ei gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau i Gymru.

64. Ymhellach, teimlwn fod gan sefydliadau eraill y cyfryngau, fel Media Wales, rôl mor bwysig ym mywyd diwylliannol ac economaidd Cymru fel y dylent hwy hefyd gael gwahoddiad i ddod gerbron Pwyllgor Cynulliad yn flynyddol.

**Argymhelliad 5: Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol arolygu'r mater o ddatganoli darlledu yng Nghymru yn barhaus a chynghori Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol.**

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu protocol gyda Llywodraeth y DU ar gyfer ymdrin â materion darlledu nas datganolwyd.**

**Argymhelliad 7: Dylai pwyllgor perthnasol y Cynulliad wahodd Ofcom, darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr allweddol eraill yn y cyfryngau i adrodd i'r pwyllgor ar eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiadau i Gymru yn flynyddol.**

# 3. Materion ynghylch darlledwyr a chyfryngau unigol

## Cyflwyniad

65. Bydd y bennod hon yn astudio materion a godwyd â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen mewn perthynas â'r meysydd penodol o'r cyfryngau a ganlyn:

- Dyfodol y BBC yng Nghymru
- Dyfodol S4C
- Ofcom
- ITV Cymru a dyfodol trwydded Sianel 3 yng Nghymru
- Channel 4
- Y sector cynhyrchu annibynnol
- Radio
- Y cyfryngau print yng Nghymru
- Teledu lleol

## Dyfodol y BBC yng Nghymru

66. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddodd y BBC gynllun *Delivering Quality First.* Dywedodd BBC wrth y grŵp mai prif oblygiadau cynllun *Delivering Quality First* yw:

- mae BBC Cymru yn dweud y bydd yn ceisio diogelu rhaglenni cymaint â phosibl, gan ailfuddsoddi mewn newyddiaduraeth wleidyddol ac arbenigol sy'n gosod yr agenda;
- ni fydd cyfanswm y newyddion a gynhyrchir gan BBC Cymru yn cael ei leihau, a bydd gohebwyr ychwanegol yn cael eu penodi mewn rhai achosion;
- bydd y gostyngiadau yn cael eu targedu at raglenni y tu allan i oriau brig, yn enwedig ar BBC Two Wales;
- at ei gilydd, bydd rhwng 110 a 125 o swyddi'n mynd, gyda rhwng 18 a 24 o swyddi newydd yn cael eu creu.

67. Mae'r hyn a ganlyn ymysg datblygiadau eraill yn BBC Cymru:

- mae'r BBC yn ddiweddar wedi agor canolfan cynhyrchu drama newydd ym Mhorth y Rhath;
- mae'r BBC yn dweud ei fod yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r modd y mae Cymru'n cael ei phortreadu a'i chynrychioli ar wasanaethau'r rhwydwaith;

- mae'r BBC wrthi'n datblygu cynlluniau i uno ac integreiddio ei holl gynnwys ar bob platfform y cyfryngau ar lefel y DU;
- bydd rhifyn y cenhedloedd o wefan bbc.co.uk yn cael ei chyflwyno'n fuan;
- mae'r BBC yn credu mai'r her i gynnwys Cymraeg ei iaith yw i gynyddu'r defnydd ar blatfformau sy'n cael eu dominyddu gan iaith ryngwladol fyd-eang. Dylai cynnwys Cymraeg ei iaith ychwanegu gwerth yn hytrach nag ailadrodd cynnwys sydd ar gael yn rhywle arall.

68. Yn ôl Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, mae gan BBC Cymru obseswin cynyddol i baratoi cynnyrch ar gyfer y rhwydwaith yn hytrach na chynrychioli Cymru ar y sgrin, ar yr awyr ac ar y we. Honnodd Ron Jones fod y BBC yn ei ystyried ei hun yn bennaf fel darlledwr Prydeinig, ac mai rhan fach yn unig o adran newyddiaduraeth y BBC yw'r cenhedloedd a'r rhanbarthau. Nid oes fawr o ddylanwad Cymreig ar lefel uwch.

69. Roedd yr IWA yn feirniadol o ddiffyg data ynghylch cynnyrch a gwariant y BBC yn y cenhedloedd:

> "We recommend that the BBC should take immediate steps to improve the consistency, comparability and transparency of data on output and expenditure within the nations. We believe that the Task and Finish Group and Welsh Government Ministers should press this matter with the BBC Trust…
>
> "Data on the content spend on each BBC Wales service is contained in BBC Wales management's annual review available on its website. Comparable data for BBC Scotland and BBC Northern Ireland is not carried in their own annual reviews or websites."

70. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod cynllun *Delivering Quality First* y BBC yn cynrychioli bygythiad anghymesur i wasanaethau lleol y BBC yng Nghymru. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn credu y dylai bod ymrwymiad cryf i ddiogelu ac atgyfnerthu gwasanaethau craidd y BBC dros Gymru.

71. Dywedodd y Gweinidog hefyd nad yw Llywodraeth Cymru yn gweld datblygu Caerdydd yn ganolfan rhwydwaith y BBC ar gyfer cynhyrchu dramâu fel cyfiawnhad dros leihau buddsoddiad y BBC mewn gwasanaethau lleol ac, o'r herwydd, dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru "yn gwneud popeth posibl i helpu i sicrhau dyfodol cynaliadwy a ffyniannus i'r BBC yng Nghymru".

**Ein barn ni**

72. O ran BBC Cymru, rydym yn cydnabod bod y sefydliad yn ymdrin â thoriadau sylweddol i'w gyllid a bod angen gwneud penderfyniadau mewn perthynas â ble bydd adnoddau'n cael eu targedu.

73. Rydym yn croesawu ac yn cefnogi sylwadau'r Gweinidog am y BBC ac rydym yn ategu ei ddatganiad y dylai'r sefydliad ymrwymo'n glir i gryfhau ei wasanaethau lleol yng Nghymru. Rydym hefyd yn cefnogi'r sylwadau na ddylai datblygu cynyrchiadau ar gyfer y rhwydwaith cenedlaethol fod ar draul buddsoddi mewn gwasanaethau lleol.

74. Fel y darlledwr cyhoeddus mwyaf, mae gan y sefydliad gyfrifoldeb i adlewyrchu bywydau pobl Cymru. Mae hefyd yn hanfodol bod darllediadau gwleidyddol BBC Cymru yn parhau i esblygu wrth i'r dirwedd wleidyddol newid, e.e. ar ôl refferendwm Cynulliad, neu wrth i'r gwahaniaethau rhwng polisïau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn meysydd sydd wedi'u datganoli ddod yn fwy amlwg. Rydym yn pryderu y gallai toriadau i gyllideb BBC Cymru gael effaith sylweddol ar y sylw a roir i wleidyddiaeth sy'n effeithio ar Gymru. Rydym yn ofni y bydd hyn, dros y tymor hirach, yn cyfrannu at yr hyn a elwir yn ddiffyg democrataidd. Fel y disgrifir ym Mhennod 1, byddem yn disgwyl i BBC Cymru a'r Ymddiriedolaeth ymddangos gerbron un o bwyllgorau'r Cynulliad yn flynyddol. Fel rhan o'r broses honno, byddem yn disgwyl i'r pwyllgor adolygu'r holl faterion a godwyd yn barhaus.

**Argymhelliad 8: Dylai Pwyllgor y Cynulliad adolygu faint o sylw a roir i wleidyddiaeth gan BBC Cymru yn barhaus, yn arbennig yn sgîl toriadau i'r gyllideb mewn adrannau perthnasol.**

**Dyfodol S4C**

75. Ar 25 Hydref 2011, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y BBC, Awdurdod S4C a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon eu bod wedi dod i gytundeb ynghylch dyfodol cyllid, llywodraethu ac atebolrwydd S4C tan 2017. Yn ôl y BBC, bydd hyn yn diogelu annibyniaeth golygyddol a rheolaethol S4C, tra'n diogelu atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC am wariant y drwydded gan y gwasanaeth.

76. Mewn tystiolaeth, mynegodd Cymdeithas yr Iaith bryder y gallai'r trefniant rhwng y BBC ac S4C arwain at gystadleuaeth am gyllid rhwng cynnwys Cymraeg a Saesneg. Gallai hyn greu tensiwn a gwrthdaro a byddai'n gam yn ôl mawr.

77. Dywedodd Ron Jones, "Mae S4C wedi treulio ei bywyd hanner ffordd rhwng Llundain a Chaerdydd heb fod yn wir atebol i'r un ohonynt. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yn ddigonol, ac roedd yn amlwg y byddai yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cael anawsterau wrth fonitro corff mewn iaith nad oedd yn ei deall".

78. Yn ôl Equity:

> "We also believe that there is an absolute need for the S4C Authority to be fully accountable and that the National Assembly through some mechanism, be it a Broadcasting Commission or Committee, should develop scrutinising powers. S4C affects so many people's lives in Wales so often and so fundamentally that for the Welsh Government to have no direct say in what it does or how it operates is absurd."[35]

79. Cyfeiriodd Telesgop at yr anawsterau y bydd S4C a'i chynhyrchwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i'r toriadau diweddaraf:

> "Wrth droi at S4C, mae'r toriadau aruthrol diweddar yn beryglus iawn i economi y sector, swyddi i Gymry Cymraeg a hunan barch y Genedl. O gofio bod S4C wedi bod yn flaengar a dewr wrth gofleidio a buddsoddi yn y dechnoleg ddigidol er 1998, gyda chwmniau annibynol yn aberthu elw a thyfiant er mwyn creu sianel lawn ar gyfer siaradwyr Cymraeg, mae'r ergyd ariannol ddiweddaraf yn enbyd."[36]

80. Fodd bynnag, lleisiodd peth optimistiaeth ar gyfer y dyfodol:

> "Un o fanteision sicr Ian Jones fel Prif Weithredwr yw ei brofiad ym maes cyd-gynhyrchu a gwerthiant rhaglenni … Gobeithio y bydd modd cael rhyw gyd-bwysedd gyda chyfleodd i fanteisio ar arian cydgynhrychu er mwyn cynyddu gwerth ar y sgrin - ond drwy gadw y cyfresi hynny sydd yn allweddol i ni fel cenedl."[37]

81. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a gorffen ei fod yn croesawu'r cytundeb rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C, ond dywedodd mai'r ddarpariaeth ddylai'r flaenoriaeth fod yn awr. Galwodd

---

[35] Y Wasg 21
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4167/Consultation%20Response%20-%20Media%2021%20-%20EQUITY.pdf

[36] Y Wasg 18,
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4164/Consultation%20Response%20-%20Media%2018%20-%20Telesgop.pdf

[37] Y Wasg 18,
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4164/Consultation%20Response%20-%20Media%2018%20-%20Telesgop.pdf

eto am adolygiad annibynnol o'r sianel, wedi'i chomisiynu ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

82. Pwysleisiodd Cymdeithas yr Iaith na ddylid mesur gwerth S4C yn ôl ffigurau gwylio yn unig, ond yn ôl cyfraniad cyffredinol y sianel i'r iaith. Yn yr un modd, dylai S4C fod yn fwy ymwybodol o'r cyfraniad y gall wneud i adfywio cymunedol a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith hefyd, wrth i dechnoleg ddatblygu, bod patrymau defnydd pobl yn newid a bod rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o ecosystem cyfryngau newydd neu bydd yn mynd yn amherthnasol i bobl ifanc. Felly, dylid ehangu cylch gwaith S4C i gynnwys cyfryngau digidol, a dylai gael adnoddau ychwanegol at y diben hwnnw.

**Ein barn ni**

83. Mae'n amlwg bod S4C wedi bod drwy gyfnod anodd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chael yn awgrymu bod y darlledwr nawr yn fwy sefydlog. Mae sylwebyddion wedi codi nifer o faterion am gyllid y sianel.

84. Ar hyn o bryd, nid ydym yn teimlo bod y drefn ariannu yn per pryder, ond rydym yn teimlo bod angen adolygu'r sefyllfa yn barhaus. Byddem yn disgwyl i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wneud hyn fel rhan o'i waith blynyddol ar faterion yn ymwneud â'r cyfryngau.

**Argymhelliad 9: Dylai Pwyllgor y Cynulliad adolygu trefniadau ariannu S4C yn barhaus er mwyn sicrhau bod y setliad ariannol yn addas; a pharhau i adolygu unrhyw gynigion i newid natur y setliad yn y dyfodol.**

**Ofcom**

85. Esboniodd Ofcom i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y modd y mae wedi ceisio addasu i newidiadau technolegol cyflym dros y blynyddoedd diwethaf, yng nghyd-destun ei adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Daeth yr adolygiad cyntaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (a gwblhawyd yn gynnar yn 2005) i'r casgliad mai newyddion rhanbarthol oedd yr elfen bwysicaf o'r ddarpariaeth i gynulleidfaoedd yn y cenhedloedd datganoledig, a bod anghenion y cenhedloedd datganoledig o ran rhaglenni nad ydynt yn raglenni newyddion yn wahanol i anghenion rhanbarthau Lloegr. Serch hynny, cynigiodd Ofcom ostyngiad yn yr isafswm gofynnol ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn raglenni newyddion ar Sianel 3 o bedair i dair awr yr wythnos yn y cenhedloedd datganoledig.

86. Cynhaliwyd ail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2007 i ymateb i'r newidiadau cyflym ym myd y cyfryngau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylai'r BBC barhau'n gonglfaen cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac er bod darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoedus ar gyfer y cenhedloedd a'r

rhanbarthau ar Sianel 3 yn parhau'n werthfawr, cytunodd Ofcom i leihau'r isafswm gorfodol ar gyfer newyddion ar ITV Cymru o bum awr 20 munud yr wythnos i bedair awr, a'r isafswm gorfodol ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn raglenni newyddion o dair awr i 1.5 awr. Cynigiodd yr adolygiad fodelau newydd posibl o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer yr oes ddigidol, a fyddai oll yn gofyn am newidiadau sylweddol i'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

87. Yn ei dystiolaeth, cyfeiriodd Ofcom hefyd at Grŵp Ymgynghori ar Ddarlledu Llyowdraeth Cymru, a argymhellodd yn 2008 y dylid sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru. Byddai sbectrwm yn cael ei ddyrannu i'r Comisiwn a byddai'n gwahodd tendrau cystadleuol am gynnwys, gyda'r dewis o sefydlu sianel deledu Saesneg i Gymru. Byddai'r Comisiwn yn cael ei ariannu o gronfa cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i Gymru o tua £50 miliwn y flwyddyn. Dywedodd Ofcom fod ei ddull o edrych ar ariannu newyddion y cenhedloedd yn ei ail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus "yn cyd-fynd yn agos â'r model asiantaeth cyllido hwn gyda ffocws ar ITV Wales fel cyfrwng ar gyfer cyflenwi."

88. Ers yr ail adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, cydnabu Ofcom fod datblygiadau technolegol a thwf y platfform teledu digidol daearol wedi cynyddu eto y dewisiadau i wylwyr a'r gystadleuaeth am wylwyr. Fodd bynnag, roedd yn datgan, "mae'r galw am deledu llinol – gan gynnwys cynnwys gwasanaeth cyhoeddus – wedi aros yn gadarn er gwaethaf cyflymder y newid technolegol a'r twf mewn dewisiadau i wylwyr."

89. Rhybuddiodd Ofcom, "mae'n bosibl y gallai dibyniaeth rhwydweithiau masnachol ar refeniw hysbysebion fygwth cynaliadwyedd y trwyddedau gwasanaeth cyhoeddus mewn blynyddoedd i ddod." Aeth ymlaen i amlinellu nifer o faterion a fydd yn berthnasol dros y blynyddoedd nesaf wrth i ddatblygiadau a thueddiadau newid:

- newidiadau strwythurol yn cynnwys darnio pellach o gynulleidfaeodd teledu a thwf mewn gwylio ar alwad/ar-lein.
- tebygolrwydd cynyddol y bydd IPTV (teledu rhyngrwyd) yn cystadlu â gwasanaethau darlledu.
- pwyslais polisi'r Llywodraeth ar greu sector cyfryngau lleol sydd â'r potensial i chwarae rôl sylweddol o ran darparu dibenion gwasanaeth cyhoeddus.

90. Roedd rhai tystion yn feirniadol o Ofcom o ran y ffordd y mae ei weithgareddau wedi effeithio ar Gymru. Dywedodd yr Athro Thomas P O'Malley:

> "One of the fundamental problems that face people trying to reform the governance of the media in Wales has been Ofcom. It prioritises the interests of the industry over the interests of the public; in spite of the fact that its terms of reference were altered as a result of public campaigning to make it promote the interests of citizens. It is staffed at the highest levels by people with a particular, market orientated view of how the media should be run, a problem that has blighted the development of policy ever since. Like the government in Westminster, where Ofcom is concerned, there is a distinct sense that policy is made by a very few people, with a clear set of values, conducted under a smokescreen of consultation. The Welsh Government should seek to consult as widely as possible so as to discover and support measures to democratise the governance of Ofcom and to broaden its remit."[38]

**Ein barn ni**

91. Fel y disgrifir ym Mhennod 2, mae atebolrwydd yn fater allweddol mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru. Mae'r Grŵp hwn yn croesawu ymrwymiad Ofcom i ymddangos gerbron y Pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad bob blwyddyn i roi adroddiad am ei weithgareddau. Byddem yn disgwyl i bwyllgor y Cynulliad adolygu materion fel gofynion trwydded Sianel 3 yn barhaus fel rhan o'r broses honno.

92. Rydym yn trafod materion ynghylch trwyddedu radio yn yr adran am Radio a thrwydded Sianel 3 ym mharagraffau 100-106.

**ITV Cymru a dyfodol trwydded Sianel 3 yng Nghymru**

93. Pwysleisiodd ITV i'r Grŵp bwysigrwydd cyfraniad ITV o ran sicrhau lluosogrwydd darpariaeth newyddion yng Nghymru. Dywedodd fod ITV Cymru yn cyflogi bron i 100 o bobl ac yn darparu pedair awr o newyddion yr wythnos, yn ogystal â 90 munud o raglenni nad ydynt yn raglenni newyddion. Mae hyn yn dipyn llai nag a fu mewn blynyddoedd blaenorol, ond esboniodd ITV fod yr oes ddigidol yn golygu bod pethau'n dipyn llai syml heddiw nag oeddynt dan yr hen system ddarlledu analog.

94. Bydd y trwyddedau Sianel 3 presennol yn dod i ben yn 2014. Mae ITV flwyddyn i mewn i'w Gynllun Trawsnewid a dros y misoedd nesaf bydd yn trafod y cynigion ar gyfer trwydded Sianel 3 ar ôl 2014 â Llywodraeth y DU ac Ofcom. Yn ôl ITV, bydd yn edrych am sicrwydd a sefydlogrwydd rheoleiddiol fel y gall

[38] Y Wasg 08
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4155/Consultation%20Response%20-%20Media%2008%20-%20Professor%20T%20P%20OMalley.pdf

darlledwyr gymryd y risgiau creadigol a gwneud y buddsoddiad i gefnogi darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

95. Dywedodd Ron Jones wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod ITV ond yn wirioneddol atebol i wleidyddion pan mae'n adeg adnewyddu trwyddedau. Yn y cyd-destun hwn:

> "Nid yw Ofcom wedi gwneud llawer i ddiogelu gofynion DGC Cymru, ac mae amodau trwyddedu wedi'u llacio i'r fath raddaufel mai ychydig o fudd, yn economaidd neu o ran cynnwys Cymraeg y darlledu, sydd i'r gwasanaeth."[39]

96. Dywedodd Ofcom y gofynnodd yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 1 Gorffennaf 2011 iddo roi cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r dewisiadau o ran aildrwyddedu Sianel 3 (a Sianel 5, sy'n digwydd yr un pryd). Dywedodd y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri dewis:

- rhoi cyfarwyddyd i Ofcom fwrw ymlaen â'r broses adnewyddu a all arwain at ddyfarnu trwyddedau deng mlynedd i'r rheini sydd eisoes yn dal trwyddedau o 1 Ionawr 2015 ymlaen.
- rhwystro adnewyddu'r trwyddedau, gan ganiatáu i Ofcom ddyfarnu trwyddedau gwag, sy'n arwain at ddyfarnu trwyddedau deng mlynedd i gyrff newydd o 1 Ionawr 2015 ymlaen.
- ymestyn y trwyddedau cyfredol am gyfnod o'i ddewis ef, unrhyw bryd.

97. Dywedodd Ofcom ei fod yn ymwybodol o'r "ffafriaeth at strwythur sydd â thrwydded Sianel 3 ar wahân i bob gwlad" a'i fod yn "derbyn y ddadl dros greu trwydded ar wahân i Gymru". Dywedodd Glyn Mathias ar ran Pwyllgor cynghori Ofcom ar gyfer Cymru:

> "We would like the opportunity for ITV's programme offer for Wales to be subject to challenge – in other words, to see whether other providers could improve on the quality and range of programming which ITV Wales has to offer. For that to be possible, now or at a later stage, there has to be a separate licence for Wales, which, if necessary, could be auctioned separately from the rest of ITV's C3 licence.
>
> "It remains possible that ITV can be persuaded to agree to a separate licence for Wales, but if not, this should be a matter for inclusion in the forthcoming Communications Act."

[39] http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4747/Media4-06-12p2.pdf

98. Argmyhellodd yr IWA i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y dylid ymestyn trwyddedau cyfredol ITV am ddwy flynedd er mwyn caniatáu i'r Bil Cyfathrebu gael ei basio, gan gyflwyno trwydded genedlaethol i Gymru wedyn.

99. Yn ôl y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, "mae patrwm hirdymor gwasanaethau ITV yng Nghymru ymhell o fod yn eglur." Bydd "yn parhau i ymgyrchu dros gynnal lluosogrwydd presennol darlledu gwasanaeth cyhoeddus" ac i "bwyso ar Lywodraeth y DU y dylai darpariaeth bresennol ITV...fod yn amod gofynnol ar gyfer adnewyddu trwydded ITV".

**Ein barn ni**

***Trwydded Sianel 3***

100. Fel y disgrifir ym Mhennod 2, un o'r materion allweddol ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru, yn enwedig o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fydd ail-drwyddedu trwydded Sianel 3.

101. Er bod Ofcom wedi pwysleisio pwysigrwydd darparu newyddion a chynnwys rhanbarthol yn y gwledydd datganoledig, mae'n glir o'r dystiolaeth fod y gofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y drwydded, mewn gwirionedd, wedi cael eu lleihau yn sylweddol ac yn gyson. Er y gall fod rhesymau dilys dros y camau gweithredu hyn, mae'n parhau i fod yn destun pryder i'r Grŵp hwn.

102. Nid ydym yn teimlo bod lleihau darpariaethau presennol Sianel 3 mewn perthynas â Chymru ymhellach yn gynaliadwy. Rydym yn teimlo y byddai unrhyw ostyngiad o'r fath yn cael effaith sylweddol ac andwyol ar luosogrwydd darpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

103. Rydym yn nodi ac yn cefnogi barn y Gweinidog mai cynnal lefel y ddarpariaeth bresennol ddylai fod yr amod sylfaenol ar adnewyddu twydded Sianel 3.

104. Mae'r Grŵp yn derbyn ei bod yn anodd i ddeiliaid trwyddedau ragweld yn gywir y pwysau masnachol fydd arnynt yn y tymor hwy, yn enwedig mewn sector sy'n symud yn gyflym fel y cyfryngau. O ystyried yr ansicrwydd hwn, rydym hefyd yn derbyn ei bod yn briodol adolygu'r trwyddedau hyn o bryd i'w gilydd.

105. Fodd bynnag, rydym yn teimlo bod angen eglurder ynghylch cynaliadwyedd masnachol darpariaethau'r drwydded bresennol. Os nad yw ITV yn credu bod y gofynion cyfredol yn fasnachol gynaliadwy, credwn y dylai ITV wneud hynny'n glir cyn unrhyw benderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag adnewyddu neu ail-drwyddedu. Yn ogystal â hyn, os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol

yn penderfynu adnewyddu'r drwydded, dylai ITV allu dangos strategaeth ar gyfer cyflawni'r gofynion presennol dros gyfnod y drwydded.

106. Rydym yn ailadrodd nad ydym yn credu y gellir lleihau'r darpariaethau presennol heb gael effaith sylweddol ar luosogrwydd yng Nghymru. Os nad yw deiliad y drwydded yn credu bod cynnal y darpariaethau presennol yn fasnachol gynaliadwy, credwn y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cyflwyno trwydded newydd, sy'n benodol i Gymru, sy'n fasnachol gynaliadwy ac sy'n diwallu anghenion pobl Cymru.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ac i Ofcom yn nodi mai darpariaethau presennol trwydded Sianel 3 ddylai fod y gofynion lleiaf ar gyfer adnewyddu'r drwydded.**

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, ar adeg briodol, ar gyfer cyflwyno trwydded Sianel 3 sy'n benodol i Gymru.**

**Ein barn ni**

***ITV Cymru***

107. Rydym yn croesawu'r ffaith bod ITV yn cydnabod bod gofynion Cymru yn unigryw o ran darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sef ymrwymiad gan ITV ei fod yn dymuno parhau i gefnogi creu rhaglenni yng Nghymru. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan ITV sy'n dweud, o ran y broses ail-drwyddedu, bod angen sefydlogrwydd fel y gellir cynllunio darparu gwasanaeth darlledu cyhoeddus. Mae gennym rywfaint o gydymdeimlad â'r sefyllfa hon. Nodwn hefyd fod ITV wedi cychwyn ar ei Gynllun Trawsnewid pum mlynedd, y mae'n credu y bydd yn rhoi darpariaeth glir ar gyfer y dyfodol.

108. O ystyried hanes ITV fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ei fuddsoddiadau o ran cynnwys a thechnoleg, a'r ffaith ei fod cyflogi bron i 100 o bobl, rydym yn derbyn ei bod yn bwysig nad yw ITV Cymru yn destun ansicrwydd diangen, o ran y dewisiadau mewn perthynas ag adnewyddu neu ail-drwyddedu trwydded Sianel 3.

109. Rydym yn credu y dylai Ofcom barhau i weithio gydag ITV i sicrhau bod y gofynion yn y drwydded Sianel 3 yn diwallu anghenion pobl Cymru ac rydym yn cydnabod bod rhaid cydbwyso hyn â chynaliadwyedd masnachol. Fel y disgrifir ym mharagraffau 100-106, credwn bod angen eglurder oddi wrth ITV ynghylch a yw'r gofynion yn y drwydded bresennol, yr ydym yn credu y dylai fod yn ofyniad lleiaf ar gyfer adnewyddu, yn fasnachol gynaliadwy.

110. Fel yn achos darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, byddem yn disgwyl i ITV ymddangos gerbron Pwyllgor y Cynulliad yn flynyddol, ac i amlinellu ei gyfrifoldebau ac ymrwymiadau i Gymru fel rhan o'r broses honno.

**Channel 4**

111. Yn ei bapur i'r Grŵp, mae Channel 4 ym amlinellu ei weithgareddau yng Nghymru, gan gyfeirio at nifer o gyfresi y mae wedi'u comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hefyd yn datgan bod cyfanswm o 12 o gwmnïau o Gymru yn cael eu cefnogi gan gronfa Alpha y sianel (i ddatblygu syniadau newydd). Fodd bynnag, mae'n nodi ei bod yn awyddus i wneud rhagor, ac yn datgan bod rhai anawsterau wrth ymdrin â Chymru ar y mater hwn:

> "Channel 4 is currently liaising closely with the Welsh Assembly Government to establish dedicated support for Welsh companies through the Alpha Fund. Earlier this year Channel 4 signed a strategic partnership with Creative Scotland, in which they committed £100,000 to the Alpha Fund to invest in Scottish-based talent. This reflects Channel 4's commitment to developing relationship with partner agencies across the UK, and it is keen to establish a similar partnership in Wales.
>
> "[...] Channel 4 would note that Wales differs to other parts of the UK as it does not have a dedicated external agency with responsibility for developing a cohesive strategy for the creative industries. This means that at times there is less clarity over the key points of contact, or access to the range of funding and expertise that organisations such as Creative Scotland, Creative England and Northern Ireland Screen are able to provide. In particular, Channel 4 has traditionally worked with a diverse range of screen agencies to host networking events, briefing sessions and master classes in creative hubs across the country. However, Channel 4 has found it more challenging to reach out to the creative community in Wales in this way, and would find it useful if there was a dedicated team tasked with facilitating these kinds of engagements."[40]

**Ein barn ni**

112. Rydym yn nodi tystiolaeth Channel 4 ynghylch ei gefnogaeth i gwmnïau yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon am y diffyg eglurder canfyddedig o ran dull strategol i hwyluso gwaith Channel 4 gyda chwmnïau o'r fath. Felly, byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru archwilio ffyrdd i weithio'n fwy

---

[40] Y Wasg 09
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4156/Consultation%20Response%20-%20Media%2009%20-%20Channel%204.pdf

effeithiol gyda Channel 4 i sefydlu mecanweithiau i gefnogi cwmnïau yng Nghymru.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd i weithio'n fwy effeithiol gyda Channel 4 i gefnogi cwmnïau Cymru.**

### Y sector cynhyrchu teledu annibynnol

113. Dywedodd Teledwyr Annibynol Cymru (TAC) wrth y Grŵp:

> "The indie TV sector is doing fairly well at present, but the recent uncertainty around the future of S4C, combined with changes in S4C's commissioning strategy, have created problems in terms of companies being able to develop sustainable business plans."[41]

114. Dywedodd Telesgop hefyd nad oedd y darlun mor negyddol cyn belled ag y mae'r sector cynhyrchu annibynnol yn y cwestiwn:

> "Amongst the continuous negativity it is essential to draw attention to the sweeping successes of the independent sector in Wales despite difficult challenges. All in all, companies managed to grow to become important and robust companies, not only in terms of size, but in terms of skills, standard and respect in the world-wide industry. This proves how able and multi-talented the sector is and provides sound evidence that the sector is worth protecting."[42]

115. Mae Telesgop hefyd yn gwrthod y feirniadaeth yn adroddiad Hargreaves nad oedd llawer o gwmnïau annibynnol Cymreig wedi cael llawer o lwyddiant tu allan i Gymru. Fodd bynang, bu datblygiadau negyddol yn y sector yn ddiweddar, gan gynnwys:

- cyhoeddiad gan Boomerang Plus ym mis Hydref 2011 ynghylch gwneud 20 aelod staff yn ddi-waith, gan ddweud bod hynny'n ganlyniad uniongyrchol i'r toriadau i raglenni y bydd y BBC ac S4C yn eu gwneud.
- cyhoeddiad gan Tinopolis ym mis Chwefror 2012 y byddai 38 aelod staff yn colli eu swyddi o ganlyniad i doriadau S4C i'w gyllideb rhaglenni yn ystod y dydd.

---

[41] Y Wasg 28
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4714/Consultation%20Response%20-%20Media%2028%20-%20Teledwyr%20Annibynnol%20Cymu%20TAC.pdf
[42] Y Wasg 18
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4164/Consultation%20Response%20-%20Media%2018%20-%20Telesgop.pdf

**Ein barn ni**

116. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a gawsom ar y mater hwn. Er ei bod yn rhy gynnar i ganfod lefel yr effaith y mae toriadau i'r gyllideb ar gyfer darlledwyr wedi ei chael ar y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru, rydym yn teimlo y dylai'r Panel Sector Diwydiannau Creadigol adolygu'r mater yn barhaus.

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effaith y toriadau yn y gyllideb ar y sector cynhyrchu teledu annibynnol yn barhaus a chanfod ffyrdd newydd o ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r sector.**

## Radio

### *Isadeiledd technolegol a chyrhaeddiad*

117. Tynnodd Ofcom sylw at y materion presennol sy'n wynebu radio yng Nghymru:

- mae gwasanaeth FM Radio Cymru yn cyrraedd 94.8 y cant o'r boblogaeth, ond oherwydd y cychwynnodd Radio Wales yn bennaf fel rhwydwaith AM yn bennaf, dim ond 68 y cant o'r boblogaeth mae ei wasanaeth FM yn ei gyrraedd;
- ar hyn o bryd, ni all 55-60 y cant o bobl Cymru dderbyn BBC Radio Wales na BBC Radio Cymru ar DAB (radio digidol), ac ni all 70 y cant o siaradwyr Cymraeg dderbyn BBC Radio Cymru ar DAB. Mae hyn yn cyferbynnu â darpariaeth o 80 y cant ar gyfer gorsfaoedd radio rhwydwaith y BBC yng Nghymru;
- mae daearyddiaeth Cymru yn golygu bod cael derbyniad FM, a DAB yn enwedig, yn anodd, sy'n golygu y bydd derbyniad AM mewn ceir yn parhau i fod yn bwysig yn y dyfodol rhagweladwy;
- ar hyn o bryd mae naw gorsaf radio cymunedol trwyddedig ar yr awyr yng Nghymru, a chyhoeddodd Ofcom drydedd rownd o drwyddedu ym mis Ebrill 2011. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl lansio gwasanaethau newydd mewn sawl ardal yng Nghymru, gan gynnwys Casnewydd ac Abertawe, oherwydd prinder amleddau.

118. Yn ôl yr IWA, mae angen strategaeth trosglwyddiad radio er mwyn ystyried daearyddiaeth Cymru'n llawn a galluogi gwasanaethau radio cenedlaethol Cymru i gystadlu â gwasanaethau y DU.

*DAB yng Nghymru a'r newid i ddigidol*

119. Tynnodd Ofcom sylw at y problemau penodol y mae Cymru'n ei hwynebu o ran radio DAB. Gall gwrandawyr yn ardaloedd poblog de Cymru dderbyn gorsafoedd y BBC a gorsafoedd masnachol ar gyfer y DU i gyd, yn ogystal â BBC Radio Cymru, BBC Radio Wales a gwasanaethau lleol ar amlblecs lleol. Fodd bynnag, gan nad oes amlblecsau lleol yn gwasanaethu gogledd a chanolbarth Cymru, ac oherwydd yr ystyrir Radio Wales a Radio Cymru yn orsafoedd lleol ac felly, nid ydynt ar gael ar yr amlblecs cenedlaethol, ni all llawer o wrandawyr yng Nghymru dderbyn y gorsafoedd hyn ar DAB. Yn ôl Ofcom:

> "Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Cynulleidfa Cymru Ymddiriedolaeth y BBC a'n Pwyllgor Cynghori ar gyfer Cymru, ynghylch darpariaeth Radio Cymru a Radio Wales ar DAB, dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi blaenoriaethu hysbysebu amlblecsau masnachol lleol ar gyfer rhannau eraill o Gymru.
>
> "Ar ben hynny, mae Llywodraeth y DU wedi datgan y byddwn yn cael y pŵer i ymestyn ardal darpariaeth amlblecsau lleol i ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu heb orfod dyfarnu trwyddedau newydd."[43]

120. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun gweithredu radio digidiol i roi gwybodaeth ynglŷn ag a ddylai fwrw ymlaen â'r newid i ddigidol. Cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar rai o'r materion ym mis Mehefin 2011. Dywedodd hefyd wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei fod yn hyderus y gellir gwella cyrhaeddiad DAB ar y ffyrdd i fod cystal â FM.

121. Dywedodd GTfm Community Radio wrth y Grŵp ei bod yn debygol y bydd y rhan fwyaf o'r prif orsafeodd radio yn symud i ddarpariaeth DAB yn unig ar ôl 2015, a mynegodd bryder fod DAB yn anaddas ar y cyfan ar gyfer trosi gorsafoedd radio lleol llai (masnachol a chymunedol) i ddigidol oherwydd costau darlledu uchel, cyrhaeddiad anaddas a diffyg capasiti amlblecs.

122. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith bod y model DAB y dewisodd y BBC ar gyfer Radio Cymru a Radio Wales (lle maent yn rhannu amlblecs â radio masnachol lleol yn hytrach nag amlblecs cenedlaethol y BBC) wedi peri anawsterau i wrandawyr Cymru, oherwydd nad oedd derbyniad DAB i'w gael mewn rhannau helaeth o'r wlad.

123. Yn ôl Town and Country Broadcasting:

---

[43] Y Wasg 42
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4728/Consultation%20Response%20-%20Media%2042%20-%20Ofcom.pdf

> "It is important that the UK Government ensures that any migration from FM to DAB digital radio is only considered in Wales when digital radio listening in Wales is above 90%. Currently the UK Government's Digital Radio Action Plan recommends that a decision on digital radio switchover should only be taken when 50% of all radio listening is via digital platforms and when national (i.e. pan UK) DAB coverage is comparable to FM, and that local DAB reaches 90% of the (UK) population and all major roads. FM radio remains a strong, universal platform because it is relatively cost effective, and for listeners it is free at the point of consumption. Wales must not be forced to follow UK-wide take-up rates since coverage and take up in Wales will always follow a slower path because of the need for more transmitters.
>
> "If DCMS is keen to get DAB Digital Radio take-up in Wales in line with the rest of the UK, then a mechanism needs to be put in place that funds the transmitter build out from either the BBC or another party especially in areas where the cost of providing local DAB services is above the average when compared to other population centres in the UK."[44]

124. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio, ac y byddai'n parhau i bwysleisio, i Lywodraeth y DU na ddylai'r newid i radio DAB ddigwydd oni bai bod sicrwydd o gyrhaeddiad o 97 y cant drwy Gymru.

125. Dywedodd y Gweinidog fod y problemau presennol ynghylch derbyn signal radio FM yn ei wneud yn ofnus ynghylch goblygiadau'r bwriad o'r newid i radio digidol. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn credu y byddai Llywodraeth y DU yn gwrando ar ei bryderon, dywedodd:

> "I am not confident at all; I wish I could say that I was. We continue to make loud representations in this regard. The current situation as we know it is that the AM/FM coverage throughout Wales is far from what we would like it to be. If I recall correctly, I think that our stated position is that we would not support a digital switchover until 97% of the Welsh population were covered by the signal. We are lobbying for a situation where, post switchover, Welsh people would notice an improvement rather than the reverse. It would be a perverse situation to switch over to a new

---

[44] Y Wasg 11
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4158/Consultation%20Response%20-%20Media%2011%20-%20Town%20and%20Country%20Broadcasting%20Limited.pdf

technology and deliver a worse service to fewer people. So, that is our clear position on that issue."[45]

### *Dyfodol radio cymunedol*

126. Amlygodd GTfm Community Radio y buddion o ymestyn radio cymunedol ledled Cymru a pha mor rhwydd fyddai gwneud hynny:

> "The very low operating costs of this medium, coupled with the very real social benefits of high levels of community involvement/interaction make this an ideal vehicle for widespread deployment in Wales, but only if the Welsh Government (continues to) support it financially."[46]

127. Pwysleisiodd GTfm Community Radio hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi gorsafeodd radio cymunedol drwy ei strategaethau hysbysebu:

> "As well as continuing to operate its Community Radio Fund grant support scheme towards core station operating costs beyond the initial five-year period therefore, the Welsh Government could also demonstrate its support for Community Radio by automatically placing all its 'public service' radio advertising campaigns on *all* the Community radio stations in Wales, alongside commercial radio and TV. Advertising charges on community stations are usually only a fraction of those charged by the larger commercial stations so I'd guess that using all nine existing stations would still leave enough cash for commercial radio and TV campaigns.[47]

128. Yn ôl Town and Country Broadcasting:

> "We would like to see the regulations on ownership relaxed in Wales. Community stations in Wales should be encouraged to partner with local commercial operators, with funds made available to commercial stations for training and community involvement. Commercial stations should be allowed to launch new community stations in areas of large population where the existing operator is not providing a full local radio service.

---

[45] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012,
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf
[46] Y Wasg 27
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s4713/Consultation%20Response%20-%20Media%2027%20-%20GTfm,%20Community%20Radio%20Wales.pdf
[47] Y Wasg 27
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4713/Consultation%20Response%20-%20Media%2027%20-%20GTfm,%20Community%20Radio%20Wales.pdf

The result would give the community and commercial sectors better relationships with each other and take out unnecessary duplication of costs. This would not only increase the skills bases but help prevent the failure of this sector – deriving better return on public funds currently sent to Community Radio."[48]

129. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £100,000 y flwyddyn i'r Gronfa Radio Cymunedol i gefnogi gorsafoedd radio cymunedol yn eu cymunedau. Fodd bynnag, roedd adolygiad o'r gronfa'n cael ei chynnal er mwyn penderfynu ar gefnogaeth yn y dyfodol. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

"I anticipate that the review will be completed in the first couple of weeks of February. I cannot give a commitment today as to the shape of future support; I cannot do so until the review has been completed. During very tough budgetary times, it will be important to take a step back when the review is complete to see what works. I have an instinctive sympathy with supporting community radio, but we need to ensure that we justify exactly how the fund operates."[49]

### *Trwyddedau masnachol*

130. Dywedodd Ofcom wrth y Grŵp ei fod yn cydnabod bod radio masnachol yn ddrud i'w ddarparu ond bod y cyhoedd yn gwerthtfawrogi'r gwasanaethau hynny. O'r herwydd, roedd wedi "wedi cymryd camau rhagweithiol i leihau'r baich rheoleiddio ar y sector radio masnachol" a'i fod "wedi ceisio dod â'r trefniadau analog a digidol yn nes at ei gilydd".

131. Fodd bynnag, roedd Town and Country Broadcasting yn feirniadol o weithgareddau Ofcom ym maes gorsafoedd masnachol, gan nodi y dylai trwyddedau FM newydd fod ar gael mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan radio lleol ar hyn o bryd:

"We would like to see Ofcom encouraged to advertise as many new commercial licences as possible in areas not currently served by local

[48] Y Wasg 11
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4713/Consultation%20Response%20-%20Media%2027%20-%20GTfm,%20Community%20Radio%20Wales.pdf
[49] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012,
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

commercial radio in Wales. We have been frustrated by Ofcom's inability to progress this area."[50]

132. Amlygodd Cymdeithas yr Iaith sut mae'r Gymraeg yn mynd yn fwyfwy ymylol ar radio masnachol oherwydd diffyg rheoleiddio ac anallu Ofcom i orfodi amodau ar orsafoedd o ran defnydd iaith. Dywedodd fod 'radio lleol' fel term yn un camarweiniol oherwydd mai cwmnïau masnachol o'r tu allan i'r ardal yn aml sy'n rhedeg y gorsafoedd hynny. Ym marn y Gymdeithas, dim ond cyfundrefn reoleiddio Gymreig allai newid hyn.

133. Bu hwn yn bwnc dadleuol yn ddiweddar oherwydd ymrwymiadau i ddarpariaeth Gymraeg. Ym mis Groffennaf 2011, gwrthododd Ofcom gais gan Radio Ceredigion i newid y gofyniad y dylai allbwn dwyieithog yr orsaf gyfateb i tua hanner yn Saeneg a hanner yn Gymraeg. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2011, cafodd trwydded Ceredigion ei hailhysbysebu'n llawn heb amod o ran y ddarpariaeth Gymraeg. Dyfynnwyd Ofcom yn dweud nad oedd ganddo'r pwer o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 i orfodi gorsafoedd radio i fod â chynnwys Cymraeg pan oedd yn hysbysebu trwyddedau o'r newydd.

**Ein barn ni**

***Cyrhaeddiad***

134. Rydym yn nodi'r dystiolaeth ynghylch problemau gyda chyrhaeddiad FM a DAB mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Mae'n amlwg bod angen cryfhau trosglwyddo FM a dylid annog Ofcom i barhau i ystyried materion penodol e.e. problemau sy'n deillio o dopograffeg Cymru.

135. Rydym yn cefnogi safbwynt y Gweinidog ar y newid i ddigidol a byddem yn ei annog i barhau i wneud sylwadau cryf i Lywodraeth y DU na ddylai hyn ddigwydd oni bai bod modd sicrhau cyrhaeddiad o 97% ledled Cymru.

136. O ystyried y materion penodol sy'n effeithio ar Gymru o ran trosglwyddo, rydym yn cefnogi'r farn bod angen strategaeth drosglwyddo. Felly, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno strategaeth o'r fath.

***Radio cymunedol***

---

[50] Y Wasg 11
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4158/Consultation%20Response%20-%20Media%2011%20-%20Town%20and%20Country%20Broadcasting%20Limited.pdf

137. Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae radio cymunedol yn ei chwarae yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi i radio cymunedol ar ffurf ei Chronfa Radio Cymunedol. Rydym hefyd yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog ar 10 Ebrill 2012 y dyfarnwyd cyfanswm o £100,000 mewn grantiau i wyth gorsaf radio cymunedol.

***Radio masnachol***

138. Rydym yn nodi'r dystiolaeth a'r pryderon mewn perthynas â thrwyddedau radio masnachol. Byddem yn disgwyl i'r pwyllgor perthnasol yn y Cynulliad, pan fydd Ofcom yn ymddangos ger ei fron, i adolygu'r materion hyn yn barhaus.

139. O ran y cynnwys darpariaeth iaith Gymraeg mewn trwyddedau, byddem yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud sylwadau cryf i Lywodraeth y DU ynghylch cynnwys dyletswyddau iaith penodol mewn perthynas â thrwyddedau masnachol yn y Bil Cyfathrebu arfaethedig.

**Argymhelliad 14: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyrhaeddiad o 97% yng Nghymru cyn y newid i ddigidol.**

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gefnogi radio cymunedol yng Nghymru.**

**Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i gynnwys dyletswyddau iaith Gymraeg penodol ar gyfer Ofcom yn y Bil Cyfathrebu.**

**Y cyfryngau print yng Nghymru**

***Cyflwr presennol papurau newydd yng Nghymru***

140. Yn ôl Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, mae papurau newydd Cymru yn wynebu argyfwng sy'n bygwth eu bodolaeth, gyda'r prif fygythiad yn dod o fodelau toriadau-er-mwyn-elw y grwpiau sy'n berchen ar bapurau newydd Cymru.

141. Amlygodd Golwg sut mae arferion darllen ac arferion diwylliannol cymdeithas wedi newid, tra bod y lleihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn gosod her benodol i'r cyfryngau Cymraeg. Dywedodd hefyd bod y lleihad mewn hysbysebion swyddi a hysbysiadu cyhoeddus yn rhoi pwysau masnachol ar gylchgronnau fel Golwg. Mae papurau lleol yn cau ac mae'r papurau 'cenedlaethol' yng Nghymru wedi gweld gostyngiad enfawr yn eu cylchrediad.

142. Yn ôl Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr, collwyd tua 100 o swyddi yn adran olygyddol Media Wales rhwng 2003 a 2011, wrth i'r cwmni gau swyddfeydd rhanbarthol yn Abertawe, Caerfyrddin, Castell-nedd, Aberdâr a Glyn Ebwy. Ym mis Tachwedd 2011, cyhoedodd Media Wales bod 14 swydd ychwanegol yn diflannu o'i ganolfan yng Nghaerdydd, a hynny'n dilyn colli 22 o swyddi yn ystod haf 2011. Dywedodd Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr bod hyn yn golygu mai deg newyddiadurwr sydd bellach yn darparu newyddion lleol i saith o bapurau wythnosol Media Wales.

143. Awgrymodd grŵp papurau newydd Tindle mai papurau wythnosol yw'r allwedd i ddyfodol llwyddiannus i'r wasg brint yng Nghymru, gan ddatgan bod tystiolaeth yn dangos fod papurau gwirioneddol leol a chymunedol eu naws yn ymdopi'n well yn ystod y dirwasgiad na phapurau eraill. Mae eu marchnad yn lleol a ffyddlon, ac nid ydynt yn dibynnu cymaint ar hysbysebu cenedlaethol a hysbysebu swyddi ac eiddo, sy'n rhywbeth sy'n taro cyhoeddiadau mwy yn galed. Dywedodd Tindle ei fod wedi parhau i lansio a phrynu cyhoeddiadau newydd er gwaethaf y dirwasgiad, dywedodd nad oedd cylchrediad wedi ddisgyn, nad oedd swyddi wedi'u colli, ac nad oedd wedi cyfaddawdu ar ansawdd.

144. O ran cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, cyfaddefodd Tindle ei bod yn farchnad anodd, heb lawer o gyllid a lleihad mewn refeniw hysbysebu, oherwydd dibyniaeth flaenorol ar y sector cyhoeddus. Nododd y dylid mynd i'r afael â hyn ac y dylai cyhoeddiadau Cymraeg gael budd o newidiadau i strategaethau cyllido/cymorth er mwyn sicrwydd yn y dyfodol ac i alluogi twf. Mae hyn yn bwysig yn benodol oherwydd y gostyngiad mewn refeniw hysbysebu o'r sector cyhoeddus:

> "Imperative is a change in the way Welsh language media is supported to ensure the survival of the few Welsh-language publications which remain. Plurality is vital but these are challenging times for Welsh publications like Y Cymro. More government subsidies and grant-aid, and more advertising support from public bodies would be welcomed."[51]

145. Ar y llaw arall, dywedodd Cymdeithas yr Iaith ei bod yn ystyried bodolaeth papur newydd dyddiol Cymraeg yn elfen hanfodol os am atgyfnerthu hunaniaeth a hunanhyder y genedl, ac i normaleiddio'r defnydd o'r iaith. Yn yr un modd, mae angen adeiladu ar waith y papurau bro a'u digideiddio.

---

[51] Y Wasg 38
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4724/Consultation%20Response%20-%20Media%2038%20-%20Tindle.pdf

146. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfwyio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, er nad oedd ganddo gyfrifoldeb uniongyrchol yn y maes, bod ganddo bryderon dybryd am y diwydiant papurau newydd oherwydd yr effaith y mae'n ei chael ar waith Llywodraeth Cymru ac ar gymunedau Cymru. Dywedodd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn eithriadol o bryderus a siomedig ynglŷn â'r toriadau yn Media Wales. Cydnabu'r Gweinidog bod y diwydiant yn un hanfodol bwysig a'i fod yn wynebu problemau difrifol, ond dywedodd ei bod yn anoddach fyth dod o hyd i atebion i'r problemau.

***Cynnwys ar-lein, cyfryngau newydd ac ansawdd newyddiaduraeth***

147. Pwysleisiodd yr NUJ nad oedd ymddangosiad cyfryngau newydd o reidrwydd yn beth da os na chedwir safonau newyddiadurol:

> "Convergence has only worsened the situation as journalists attempt to produce material for more outlets and platforms with less and less resources. New media provision – digital and online – is too often being produced on a shoestring, and is in reality dependant on the core radio/television/print services consistently under attack.
>
> "[...] we hold strongly to the view that a functioning democracy cannot do without trained journalists to report facts, not just opinion. Journalists provide a unique service to the public by providing accurate and reliable information and analysis."[52]

148. Yn yr un modd, cyfeiriodd Dr Andy Williams at annigonolrwydd newyddiaduriaeth amatur fel ffordd o lenwi'r bylchau yng nghyfryngau prif ffrwd Cymru:

> "[One] solution is that unpaid citizen journalists will fill the void left by the redundant professionals, either in the form of independent blogs, or in collaboration with scaled-down commercial media players. I am a great supporter of the democratic and democratising potential of alternative media and collaborative journalism. But despite the well-chronicled limitations of the mainstream news media I am also extremely sceptical about citizens' ability to replace professional public interest journalism."[53]

---

[52] Y Wasg 31
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4717/Consultation%20Response%20-%20Media%2031%20-%20NUJ%20Wales.pdf

[53] Y Wasg 34
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4720/Consultation%20Response%20-%20Media%2034%20-%20Dr%20Andy%20Williams%20-%20Cardiff%20University.pdf

149. Mater cysylltiedig a godwyd gan dystion oedd yr anawsterau y mae papurau newydd yn eu hwynebu o ran cael y model busnes yn iawn a denu arian o gynnwys ar-lein. Dywedodd yr NUJ:

> "Many [newspaper] companies took the decision to put the entire content of newspapers online free of charge on the assumption that digital advertising revenue would match that from print. This has encouraged people to believe that information should be readily available free of charge … Companies should have invested in innovation on the web to increase readership and advertising revenues. The same mistake, incidentally, was not made in other European countries.
>
> "[...] there are no stand-alone news websites anywhere in the world that provide more than a comparatively small number of jobs for journalists: the advertising revenue simply isn't available."[54]

150. Cytunodd Dr Andy Williams:

> "[...] there are those that still hope that even though we might lose some titles advertisers will eventually migrate to online news… Despite much talk in the industry of improving digital profits from local and regional news, there is little evidence this will happen in anything approaching sufficient volume."[55]

151. Roedd gan y Sefydliad Materion Cymreig ddadansoddiad tebyg:

> "At present there is little to substantiate an optimistic view of the impact of online on the profitability of newspaper groups and it seems inevitable that as consolidation continues, the numbers of staff, including journalists, will decline and that the quantity and quality of original journalistic content will suffer."[56]

152. Roedd tystion eraill yn gweld cyfleoedd clir yng Nghymru i fusnesau cyfryngau newydd ffynnu. Dywedodd Richie Turner:

---

[54] Y Wasg 31
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4717/Consultation%20Response%20-%20Media%2031%20-%20NUJ%20Wales.pdf

[55] Y Wasg 34
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4720/Consultation%20Response%20-%20Media%2034%20-%20Dr%20Andy%20Williams%20-%20Cardiff%20University.pdf

[56] Y Wasg 37
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4723/Consultation%20Response%20-%20Media%2037%20-%20Institute%20of%20Welsh%20Affairs.pdf

"Globally new technology is enabling and empowering people to create their own media content and disseminate that content directly themselves. This is changing the business models of media […] but is also encouraging the creation of more local and regionally relevant content.

"As a bilingual nation Wales is well placed to benefit from the need to supply multi-lingual, locally created and locally relevant media content. […] These skills should enable Wales to be at the front of the curve in terms of technological and cultural innovations in media content creation and delivery[...]."[57]

153. Cyfeiriodd Golwg at sut y bydd y gwasanaeth *Golwg360* yn ceisio cyfuno newyddiaduraeth broffesiynol a newyddiaduraeth dinesydd:

"Un flaenoriaeth yn y cyfnod nesaf yw i gyflwyno adrannau mwy lleol i'r gwasanaeth. Wrth wneud hyn rydym yn gobeithio cyfuno newyddiaduriaeth broffesiynol gyda newyddiaduriaeth 'dinesydd' (h.y. straeon gan y darllenwyr) yn ogystal â bwydo gwybodaeth a newyddion perthnasol o fannau eraill ar y we.

"Blaenoriaeth arall yw rhoi llwyfan i fwy o gynnwys aml-gyfrwng ar Golwg360.com. Rydym yn gobeithio gallu cynhyrchu mwy o gynnwys fideo a sain yn fewnol, ond hefyd yn awyddus i roi llwyfan i gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan bobl eraill [...]"[58]

154. Cyfeiriodd Tindle at y ffaith y bu'r modelau busnes y mae wedi'u dewis a'r ffordd y mae wedi defnyddio'r rhyngrwyd yn bwysig o ran cynnal gwerthiant ei bapurau newydd:

"The Tindle Group do not believe that local community newspapers are under threat from the internet […] Tindle newspapers are using their own websites to enhance their publications and encourage readers and advertisers to move between the two.

"In Wales, our strategy has been to make sure that our websites do not steal the thunder of our weekly newspapers. So tasters of stories are included, but readers must go to the papers to get the full story. Also, our

---

[57] Y Wasg 29
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4715/Consultation%20Response%20-%20Media%2029%20-%20University%20of%20Wales%20Global%20Academy.pdf

[58] Y Wasg 36
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4722/Consultation%20Response%20-%20Media%2036%20-%20Golwg%20360.pdf

paid-for e-editions have been a success […] enabling readers to access the titles wherever they are in the world (but not for free).

"Of course, the print media has to evolve, to continue to embrace the digital age – but with careful management and balance, newspapers have an increasing role to play, especially in Wales[…]"[59]

### *Cymhorthdal cyhoeddus i'r wasg*

155. Honnodd rhai tystion y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu rhyw fath o gymhorthdal cyhoeddus i'r wasg yng Nghymru. Dywedodd Dr Andy Williams:

"The exact forms this public subsidy might take needs serious and imaginative debate. But we cannot put this debate off indefinitely […] I believe a good place to start would be to limit public subsidy to a new generation of non-profit, perhaps co-operatively-owned, news organisations, beginning with existing "news holes" in areas where local papers have closed down."[60]

156. Dywedodd yr Athro Steve Blandford a Dr Huw D Jones:

"[...] if Wales wants to ensure the survival of its newspaper industry, it needs to give serious consideration to providing direct subsidy for the press. Newspapers in Wales already enjoy indirect press subsidy in the form of VAT exemption. Some Welsh language publications such as Barn and Golwg also receive small public grants through the Welsh Language Board. Yet Wales is still one of the few small nations in western Europe not to provide direct subsidy for its main newspapers. Compared to countries like Norway and Sweden, the Welsh press therefore lacks both quality and diversity. While governments throughout Europe are under pressure to reduce public spending, a strong and diverse press is a vital element within a healthy democracy. The Welsh Government should therefore look in more detail at the costs and benefits of introducing a direct subsidy for

[59] Y Wasg 38
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4724/Consultation%20Response%20-%20Media%2038%20-%20Tindle.pdf
[60] Y Wasg 01
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4148/Consultation%20Response%20-%20Media%2001%20-%20Dr%20Andy%20Williams%20-%20Cardiff%20University%20School%20of%20Journalism%20Media%20and%20Cultural%20Studies.pdf

the press in Wales, particularly to help newspapers adjust to the new digital media economy."[61]

157. Dywedodd yr NUJ yn yr un modd y dylai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad wneud yr hyn a ganlyn:

> "Urgently begin the process of looking at how to support new models of media ownership in Wales, such as co-operatives and charitable bodies that can be quickly established in the event of titles being closed down by UK and international conglomerates."[62]

158. Dywedodd yr NUJ hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatgan bod papurau newydd yn asedau cymunedol a chenedlaethol ac y dylai ymyrryd pan fydd perchnogion yn cynnig cau papurau newydd. Er yr amheuaeth yn y gorffennol ynghylch rhoi cymhorthdal i'r cyfryngau, dylid defnyddio arian cyhoeddus, a gellid ei ddefnyddio, i fuddsoddi mewn newyddiaduraeth o safon ac i sicrhau dyfodol hyfyw i'r diwydiant.

159. Cyfeiriodd Dalen Newydd Cyf yn benodol at ei ddymuniad i gryfhau'r wasg Gymraeg drwy sefydlu papurau print newydd. Fodd bynnag, roedd yn ansicr ynghylch a ddylid defnyddio grantiau i wneud hynny:

> "Y dewis arall fyddai cymhorthdal uniongyrchol, megis a delir i rai cyhoeddiadau Cymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru, ond ar raddfa lawer yn fwy. Bydd y pwyllgor yn ymwybodol o anawsterau hyn. Buom ninnau'n gyson yn pwysleisio nad oeddem yn dymuno dibynnu ar grantiau, a bod gwahaniaeth o ran egwyddor rhwng hynny a derbyn hysbysiadau cyhoeddus fel rhan o fusnes."[63]

160. Fodd bynnag, galwodd ar y Grŵp i ganfod atebion i'r materion ynghylch y wasg Gymraeg wrth lunio ei argymhellion:

> "Os gwêl y pwyllgor, ar ddiwedd ei ystyriaeth, ffordd ymlaen i'r wasg yng Nghymru, byddai'n dda gennym feddwl y bydd lle i'r wasg Gymraeg o fewn y strategaeth. Bydd gennym ddiddordeb mewn unrhyw gynllun a wna'n bosibl ddatblygiad a fyddai'n cynyddu'n sylweddol rif y darllenwyr

---

[61] http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3771/Media4-03-11p9.html?CT=2

[62] Y Wasg 31
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4717/Consultation%20Response%20-%20Media%2031%20-%20NUJ%20Wales.pdf

[63] Y Wasg 45
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4731/Consultation%20Response%20-%20Media%2045%20-%20Dalen%20Newydd%20Ltd.pdf

Cymraeg, a byddwn yn falch o fod â rhan mewn unrhyw drafodaeth i'r diben hwn."[64]

161. Ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i'r mater hwn oedd:

"The idea of Government subsidising the press is a difficult arena to become involved with. There are no Welsh Government plans to go down that route. The Welsh public sector as a whole supports the Welsh print media to a large extent through advertising. We have to recognise that, and also if we are to think constructively about the future of such things, we need to be careful that that kind of indirect support, if you like, has no impact on any kind of editorial decision, which is safeguarded and possibly enhanced or at least not damaged by us. However, no, the Welsh Government has no such plans.

"The Welsh Government's door would be open to good ideas and suggestions in order to explore what might be possible in the future. We are in a very fast-moving environment and no-one knows what the future of the print media is throughout the world. However, good ideas to preserve good Welsh journalism, which reflects Welsh public life in particular, is an essential component of our democratic public life and we need to be as open as possible in terms of preserving it; it is an enormous worry."[65]

### *Hysbysiadau cyhoeddus, papurau newydd cynghorau a hysbysebu*

162. Credai Grŵp Papurau Newydd Tindle y dylai papurau newydd Cymru gael cymorth mwy strwythuredig gan y Llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Dywedodd fod papurau yng nghefn gwlad Cymru yn wynebu anawsterau penodol fel problemau gyda'r rhwydwaith drafnidiaeth a chostau dosbarthu a gweithredu anferthol. Dylai'r defnydd o hysbysiadau cyhoeddus ganolbwyntio ar bapurau wythnosol ledled Cymru, yn hytrach na chanolbwyntio ar bapurau newydd cenedlaethol.

163. Ar thema debyg, pwysleisiodd y Sefydliad Materion Cymreig y dylai Llywodraeth Cymru annog awdurdodau lleol i beidio â chyhoeddi eu papurau newydd eu hunain. Yn hytrach, dylai awdurdodau sefydlu partneriaethau gyda phapurau newydd lleol i fodloni eu hamcanion cyfathrebu. Cytunodd Tindle, gan

---

[64] Y Wasg 45
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4731/Consultation%20Response%20-%20Media%2045%20-%20Dalen%20Newydd%20Ltd.pdf

[65] Tystiolaeth lafar 12.01.2012
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

ddweud bod angen rheolaeth dynnach ar gyhoeddiadau awdurdodau lleol sy'n bygwth hyfywedd papurau newydd masnachol.

164. Ym mis Rhagfyr 2011, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad yn cynnig i ddiwygio'r rheoliadau presennol i symleiddio'r broses o hysbysebu gorchmynion rheoli traffig, gan gael gwared ar y gofyniad statudol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd.

**Ein barn ni**

165. Mae'n amlwg bod sector cyfryngau print bywiog yn hanfodol i Gymru, yn enwedig o ran sicrhau atebolrwydd democrataidd. Mae sicrhau bod y cyfryngau print yn parhau i fod yn ddiwydiant hyfyw yn peri pryder mawr i'r Grŵp hwn.

166. Clywsom dystiolaeth gan nifer o dystion ynghylch pryderon am fodelau busnes y cyfryngau print. Fodd bynnag, mae'r rhain yn faterion sy'n effeithio ar y diwydiant yn fyd-eang, ac nid ydynt yn benodol i'r cyfryngau print yng Nghymru.

167. Clywsom fod papurau newydd yn ymdrin â chynnwys ar-lein mewn ffyrdd gwahanol. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth na fydd hysbysebu ar-lein yn cael effaith sylweddol ar broffidioldeb papurau newydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn anodd gweld sut y gall newyddiadurwyr barhau i lunio cynnwys ar gyfer nifer o lwyfannau heb fod ansawdd yn dioddef. Mewn rhai achosion, mae'r sefyllfa hon yn cael ei wneud yn fwy problemus oherwydd y gostyngiad yn nifer y newyddiadurwyr.

168. O ystyried y cyfraniad y gall y cyfryngau print wneud i gymunedau lleol, ac yn wir, ei bwysigrwydd ar lefel genedlaethol, ac o ystyried y posibilrwydd o "wacterau newyddion" yn ymddangos pan fydd teitlau'n cau, rydym yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa i helpu cwmnïau sy'n torri swyddi neu deitlau sydd mewn perygl o gau, yn yr un modd ag y byddai'n cynorthwyo cwmnïau mewn diwydiannau eraill sy'n cael trafferthion tebyg.

169. Oherwydd yr amser a oedd ar gael ar gyfer yr ymchwiliad hwn, nid ydym wedi gallu casglu digon o dystiolaeth i lunio barn ar fater mwy cyffredinol cymhorthdal cyhoeddus ar gyfer y wasg. Fodd bynnag, teimlwn y dylai'r fforwm annibynnol ystyried, fel rhan o'i rôl, fodelau cynaliadwy ar gyfer y diwydiant cyfryngau print, ac y dylai hyn hefyd gynnwys ystyried cymorthdaliadau cyhoeddus, fel sy'n digwydd mewn gwledydd bach eraill yn Ewrop. Dylai gwaith y fforwm annibynnol hefyd ganolbwyntio ar ymagwedd strategol tuag at gynaliadwyedd cyhoeddiadau Cymraeg.

170. O ran cymorth cyhoeddus anuniongyrchol, rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan nifer o bobl yn y diwydiant o ran yr awgrymiadau y gallai'r gofyniad

i gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd gael ei ddileu. Rydym yn cydymdeimlo â'r sefyllfa hon a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yn llawn yr effaith y gallai cynigion o'r fath ei chael ar ddiwydiant lle mae modelau busnes presennol eisoes yn profi anawsterau sylweddol.

**Argymhelliad 17: Fel rhan o'i rôl, dylai'r fforwm annibynnol ymchwilio i fodelau busnes cynaliadwy ar gyfer y cyfryngau print yng Nghymru.**

**Argymhelliad 18: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod mewn sefyllfa i ymgysylltu â chwmnïau papur newydd fel y gellir rhoi mesurau ymarferol ar waith os daw'n amlwg y bydd nifer sylweddol o swyddi yn cael eu colli, neu os bydd papurau newydd yn cau.**

**Teledu lleol**

171. Nododd Ofcom chwe lleoliad ar ran yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lle y gallai fod yn dechnegol bosibl i gael gwasanaethau darlledu teledu lleol: Bangor, Caerdydd, Caerfyrddin, Hwlffordd, yr Wyddgrug ac Abertawe. Ym mis Rhagfyr 2011, cyhoeddodd y byddai Caerdydd (gan gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr/Casnewydd) ac Abertawe (gan gynnwys Llanelli) yn ddau o 20 ardal arloesi, a nodwyd Bangor a'r Wyddgrug (gan gynnwys Dinbych/Rhuthun) ar gyfer cylch trwyddedu yn y dyfodol. Dywedodd wrth y Grŵp:

> "The Ofcom Advisory Committee for Wales has welcomed the emergence of additional local TV services but does not believe that local television services would be an adequate substitute or replacement for the existing all-Wales Channel 3 service provided by ITV Wales."[66]

172. Roedd nifer o'r tystion yn cwestiynu pa mor addas yw'r model teledu lleol ar gyfer Cymru, gan honni nad oedd yn ymddangos yn addas i anghenion Cymru. Yn ôl TAC, dylai Llywodraeth Cymru greu ei chynllun ei hun ar gyfer sut y bydd teledu lleol yn gweithio yng Nghymru, gyda'i strwythur cymunedol a'i ddiwydiant cyfryngau ei hun. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig y dylai'r BBC, S4C a chynhyrchwyr annibynnol ystyried model dielw ar gyfer teledu lleol.

173. Pwysleisiodd Cymdeithas yr Iaith y dylai'r Gymraeg gael presenoldeb ar unrhyw wasanaethau teledu lleol a gyflwynir, er nad yw'r modelau a ragwelir yn ymddangos yn addas ar gyfer anghenion Cymru. Gallai gwasanaethau o'r fath fod yn andwyol iawn i'r Gymraeg os ydynt yn dilyn yr un llwybr â radio lleol lle mae

[66] Y Wasg 42
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4728/Consultation%20Response%20-%20Media%2042%20-%20Ofcom.pdf

pwysau’r farchnad wedi arwain at leihad sylweddol yn y cynnwys Cymraeg. Dywedodd hefyd y dylid canolbwyntio ar gydweithio o fewn cymunedau:

> “Credwn fod 'integreiddio' a 'chydweithio' yn llawer mwy cydnaws yn y cyd-destun Cymreig (a gwledig). Fe ellid yn sicr ddatblygu polisi o hyrwyddo gwasanaethau bro gyda phartneriaid ar lawr gwlad yn cydweithio a'i gilydd i wasanaethu eu cymunedau, ond weledigaeth hollol wahanol a gwrthun a gynigir yn y cynlluniau presennol.”[67]

174. Cyfeiriodd Telesgop at ei brofiadau yn y maes hwn:

> “Yr ateb, o bosib, i ddiffyg plwraliaeth yw teledu lleol. Yn sicr mae llywodraeth Cameron yn gweld hyn fel y ffordd ymlaen. Mae Telesgop wedi bod yn arbrofi gyda sianelau lleol ar y we – ac wedi buddsoddi yn sylweddol mewn un fenter yng Nghastell Nedd. Fe allwn ddweud gyda llaw ar galon bod y broses hyd yma yn llafurus, di-ddiolch, sydd yn gwneud dim incwm o gwbwl.”[68]

175. Dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod Llywodraeth Cymru yn croesawu’r ffaith bod mannau penodol yng Nghymru wedi’u neilltuo fel lleoliadau ar gyfer teledu lleol, ac mae ganddi ddiddordeb mewn sut y gallai gefnogi’r diwydiannau creadigol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae’n pryderu na fydd cyfran sylweddol o Gymru yn derbyn y gwasanaeth newydd arfaethedig a bod y tirlun darlledu yng Nghymru yn wahanol iawn i’r tirlun yn Lloegr. Gallai gwasanaethau lleol yng Nghymru olygu gwasanaethau cenedlaethol, sy’n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

> “In a Welsh context, it detracts from what should be at the centre of our concerns, namely the safety and quality of our main broadcasters and their ability to hold up a mirror to the Welsh people—S4C, BBC Wales and ITV Wales in particular. If licence payers’ money is being siphoned off to support other things, whatever they are, I will be concerned about that. Also, we have a smaller and more dispersed population. We have less

[67] Y Wasg 17
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4163/Consultation%20Response%20-%20Media%2017%20-%20Cymdeithas%20yr%20Iaith%20Gymraeg.pdf
[68] Y Wasg 18
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4164/Consultation%20Response%20-%20Media%2018%20-%20Telesgop.pdf

potential in most communities for local television to be commercially viable, so I am sceptical of it."[69]

**Ein barn ni**

176. O ran teledu lleol, rydym yn nodi nad oedd y tystion, ar hyn o bryd, yn gallu rhoi barn ynghylch a fyddai'r fenter yn llwyddiant. Nid ydym yn sicr ynghylch buddion y polisi hwn i'r cyfryngau yng Nghymru ac rydym yn cefnogi safbwynt y Gweinidog na ddylai bolisïau newydd amharu ar ymdrechion i gryfhau'r sectorau cyfryngau craidd presennol, fel y disgrifir yn y bennod hon.

177. Ar y sail hon, byddem yn gofyn i'r Gweinidog i adolygu'r cynigion hyn yn barhaus, ac i gyflwyno sylwadau i Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cynigion yn cael eu datblygu i ddiwallu anghenion penodol Cymru.

[69] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

# 4. Y diwydiannau creadigol, modelau busnes newydd a chymorth busnes

## Cyflwyniad

178. Bydd y bennod hon yn mynd i'r afael â'r materion a ganlyn:

- Darpariaeth band eang;
- Arolwg Hargreaves;
- Cymorth busnes ar gyfer cwmnïau cyfryngau newydd a meithrin arloesedd;
- Cydweithio a chael un ganolfan gyfryngau yng Nghymru;
- Hawliau eiddo deallusol; a
- Sgiliau a hyfforddiant.

## Darpariaeth band eang

179. Nododd nifer o dystion bwysigrwydd sicrhau bod gan Gymru ddarpariaeth band eang digonol (sefydlog a symudol) os yw ei chwmnïau cyfryngau i gystadlu yn y dyfodol. Mynegodd Cyngor Celfyddydau Cymru bryderon ynghylch y ffaith nad yw mynediad at y cyfryngau yn gyfartal ledled Cymru. Un maes sy'n achosi pryder arbennig yw mynediad anghyson at fand eang (yn ogystal â'r diffyg gwasanaeth FM llawn ar gyfer BBC Radio Wales a'r diffyg gwasanaeth DAB cenedlaethol llawn ar gyfer Radio Wales a Radio Cymru):

> "This immediately creates inequalities in some areas across Wales [...] An overarching priority must be to ensure that the benefits of digital technology are available to all. We therefore endorse the Welsh Government's ambition to develop universally accessible, high-speed, fixed and mobile networks."[70]

180. Fodd bynnag, croesawodd nifer o dystion y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen gyda'i strategaeth band eang, gan gyfeirio at y ffaith bod nifer y bobl sy'n defnyddio band eang wedi codi yn gynt yng Nghymru nag yn unrhyw le arall yn y flwyddyn ddiwethaf, gan olygu bod y lefelau bron yn gyfartal â rhai y DU. Dywedodd Ofcom: 'the position has improved dramatically as a result of the intervention of the Welsh Government'.

[70] Y Wasg 44
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4730/Consultation%20Response%20-%20Media%2044%20-%20Arts%20Council%20for%20Wales.pdf

181. Pwysleisiodd y tystion bwysigrwydd parhau gyda'r gwaith hwn drwy brosiect cenhedlaeth nesaf band eang Llywodraeth Cymru (sy'n canolbwyntio ar ddarparu band eang 30 Mb ledled Cymru). Mae BBC Cymru wedi dweud y dylai argaeledd rhwydweithiau band eang cyflymder uchel sydd ar gael i bawb, yn rhai sefydlog a symudol, fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, dywedodd yr Athro Ian Hargreaves:

> "In terms of what is wrong and what can be done about it, the absolute No. 1 priority for the future of media in Wales is to complete the broadband infrastructure and to address weaknesses in the mobile infrastructure. If that is not done successfully—it is currently the Welsh Government's intention that this should be completed to next generation levels by 2015—Wales will suffer structural disadvantage for another generati [...] I cannot think of a more important piece of infrastructure spending for Wales than the completion of a next generation broadband network."[71]

182. Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fod prosiect cenhedlaeth nesaf band eang Llywodraeth Cymru yn y cyfnod caffael ar hyn o bryd. Dywedodd Ron Jones, yn ei rôl fel Cadeirydd Panel y Sector Diwydiannau Creadigol, wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

> "The project, which has now been under way for quite some time, still needs to be monitored quite carefully. The proposals that have been committed to by the Government are sensible. The commitment is to provide 30 Mb of broadband across the whole of Wales. It is important that we do not become sidetracked into 100 Mb provision, even as an ambition, if that ambition takes away from the success of the paramount need to provide adequate broadband coverage to the whole of Wales. It is undeniable that there will be few institutions and companies, let alone individuals in Wales that have an immediate need for 100 Mb. If we are to develop a truly digital Wales that encompasses the lives of all our people, then that 30 Mb will be the priority."[72]

**Adolygiad Hargreaves**

183. Cyhoeddodd yr Athro Ian Hargreaves ei adolygiad o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru ym mis Mai 2010. Roedd yr adolygiad yn beirniadu'n chwyrn y bylchau a welodd yn y polisïau a'r strwythurau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ddigidol a'r diwydiannau creadigol, ac amlygodd bwysigrwydd

[71] Tystiolaeth lafar 13.10.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf
[72] Tystiolaeth lafar 07.12.2011 http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4634/7%20December%202011.pdf

economaidd a diwylliannol y sectorau hyn. Nodwyd hefyd bod strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r cyfryngau digidol a chynnwys ar-lein yn wan, er gwaethaf y cyfleoedd a oedd ar gael i fod yn arloesol.

184. Derbyniodd Llywodraeth Cymru arolwg Hargreaves a nododd y byddai'n datblygu ei argymhellion fel elfen allweddol o'i Rhaglen i Adnewyddu'r Economi. Wrth i'r Grŵp ddechrau ar ei waith, roedd Llywodraeth Cymru wedi:

- sefydlu Bwrdd Cynghori Cymru Ddigidol (Tachwedd 2010) ac wedi cyhoeddi ei datganiad polisi *Cyflawni Cymru Ddigidol (*Rhagfyr 2010);
- sefydlu Panel y Sector Diwydiannau Creadigol newydd (Hydref 2010) a gaiff ei gadeirio gan Ron Jones i gynghori Llywodraeth Cymru (a'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn arbennig) ar bolisi yn y maes hwn;
- sefydlu Tîm y Diwydiannau Creadigol (sydd bellach o fewn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth) i ddatblygu'r gwaith yn y maes hwn.

185. Pan ddechreuodd ymgynghoriad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan bod gwaith ar y gweill i nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y sector yng nghyd-destun arolwg Hargreaves, a bod disgwyl i gynllun ategol ac amserlen gweithredu gael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2011.

***Ymateb Llywodraeth Cymru***

186. Roedd rhai tystion yn pryderu ynghylch y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran gweithredu argymhellion arolwg Hargreaves. Er ei fod yn croesawu'r adroddiad, dywedodd TAC:

> "Publicly, there appears to have been little progress since the publication of Professor Hargreaves' report other than the establishment of the Creative Industries Panel and Carwyn Jones' speech of June 2011, which centred on the creative industries. For this reason, there is a noticeable lack of a clear picture in terms of what the Welsh Assembly Government is doing in this area to devise and pursue an overall strategy."[73]

187. Dywedodd Cube Interactive:

> "The actions taken in the wake of the Hargreaves report, including reorganising the delivery structures in the Welsh Government and establishing sector panels, should translate into policy initiatives to

[73] Y Wasg 28, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4714/Consultation%20Response%20-%20Media%2028%20-%20Teledwyr%20Annibynnol%20Cymu%20TAC.pdf

address these areas, though the pace of change is slow from a private sector viewpoint."[74]

188. Yn yr un modd, dywedodd Rondo Media:

> "O fewn y sector creadigol yn gyffredinol, teimlwn nad oes digon wedi ei wneud eto i roi argymhellion adroddiad yr Athro Hargreaves ar waith. Teimlwn hefyd y gellid gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth y sector a'r cyhoedd o beth yw diben a rôl Bwrdd y Diwydiannau Creadigol.
>
> "Teimlwn bod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran hybu a chefnogi cynlluniau darlledwyr i gynyddu lefelau comisiynu o Gymru [...] Mae sicrhau ariannu digonol a chynnydd mewn gwariant ar gynnwys yn allweddol i dwf a ffyniant y cyfryngau yng Nghymru."[75]

189. Dywedodd Telesgop:

> "Mae nifer o agweddau da yn adroddiad Hargreaves ond nid yw hi'n amlwg beth sydd ar waith i roi ei argymhellion ar waith."[76]

190. Beirniadodd Asiantaeth Ffilm Cymru y diffyg cynrychiolaeth strategol gan ddiwydiant ffilm Cymru ar Banel y Sector Diwydiannau Creadigol, gan ddweud: '[this] is an oversight in need of redress'. Cyfeiriodd hefyd at argymhelliad Hargreaves i aildrefnu'r gefnogaeth ar gyfer y diwydiant ffilm yng Nghymru i gael gwared ar ddyblygu gwaith ac i wneud y mwyaf o'r effaith a'r effeithlonrwydd economaidd:

> "The absence of strategic representation alongside other creative industries has left this recommendation in abeyance. There is no strategic relationship in advisory terms either, leaving the critical relationship between broadcast and film production companies underconnected and under using the capacity of the sector at the whole [...]
>
> "At a time of increased complexity and convergence in content production and exploitation, the ambition of stimulating a successful, high quality, diverse and dynamic audiovisual and media sector in Wales requires

---

[74] Y Wasg 35, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4721/Consultation%20Response%20-%20Media%2035%20-%20Cube%20Interactive.pdf

[75] Y Wasg 16, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4162/Consultation%20Response%20-%20Media%2016%20-%20Rondo.pdf

[76] Y Wasg 18, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4164/Consultation%20Response%20-%20Media%2018%20-%20Telesgop.pdf

sophisticated, joined up public interventions bringing together know how, finance and physical resources."[77]

191. Dywedoddd Ron Jones (cadeirydd panel y sector):

> "Most of the elements that Ian dealt with are implemented or are in the process of being implemented.
>
> "This is not an easy sector to reform. There is a lack of information, historically, about what the sector comprises, a lack of knowledge about the true economic impact and a lack of a sense of direction in terms of identifying those sub-sectors where economic growth can really be made a significant part of the future of our economy."[78]

192. Dywedodd Ron Jones hefyd, oherwydd yr elfen o frys, bod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi cytuno y byddai is-banel newydd o Banel y Sector Diwydiannau Creadigol yn cael ei greu i ganolbwyntio ar ddarlledu yn unig:

> "The Ministers have agreed that the sub-panel will be established. They are in the final stages of agreeing a formal remit for it. It is agreed that I will chair it and, across the departments, we will look to find a small number of people who can provide the policy advice, hopefully, over this period of significant change over the next three or four years."[79]

**Cymorth busnes ar gyfer cwmnïau cyfryngau newydd a meithrin arloesedd**

193. Dywedodd yr Athro Steve Blandford wrth y grŵp:

> "There may be partnerships that the Welsh Government could enter into with higher education consortia to incubate small businesses at a very modest level."[80]

194. Dywedodd Euryn Ogwen Williams:

---

[77] Y Wasg 15, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4161/Consultation%20Response%20-%20Media%2015%20-%20Film%20Agency%20for%20Wales.pdf

[78] Tystiolaeth lafar, 07.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4634/7%20December%202011.pdf

[79] Tystiolaeth lafar, 12.01.2011 http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

[80] Tystiolaeth lafar, 13.10.2011 http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf

"[R]haid i'r Llywodraeth a'r Cynulliad gymryd y cyfle hwn o ddifrif i wneud i bethau ddigwydd, oherwydd mae gennym y bobl allan yn y byd a allai wneud iddo ddigwydd gydag ychydig yn unig o gyllid ychwanegol"

Dywedodd hefyd:

"There is much talk now that there should be more small producers, but that is missing the point entirely. It is about innovation and the young entrepreneurs and graduates who need to be given the opportunity and the motivation to go for it…"

Ac ychwanegodd:

"Mae gan y cwmnïau mawr gyfrifoldeb i ddod â'r bobl newydd hyn yn eu blaenau [...]"[81]

195. Galwodd Green Bay ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa cynhyrchu annibynnol i gefnogi cynhyrchu cynnwys ar gyfer Cymru ac o Gymru. Dylai hyn fod yn unol â'r gwaith mewn gwledydd eraill fel Canada lle mae'r Llywodraeth yn ystyried cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i amddiffyn diwylliant Canada ac mae wedi datblygu mwy na 12 o gronfeydd cynhyrchu a luniwyd i hyrwyddo cynnwys o ansawdd o Ganada. Awgrymodd Green Bay y gallai cronfa o'r fath yng Nghymru ganolbwyntio i ddechrau ar y farchnad deledu ond y gellid datblygu cynnwys mewn pryd iddo gael ei gyhoeddi ar lwyfannau digidol eraill.

196. Pwysleisiodd TAC y ffaith y dylai Llywodraeth Cymru greu cyfleoedd i gwmnïau ddatblygu yn rhyngwladol drwy fentrau a fyddai'n hybu sector creadigol Cymru o dan un faner, a dylai roi mesurau penodol ar waith i annog cwmnïau i beidio â symud o Gymru.

197. Roedd BECTU yn beirniadu'r ffordd y mae cwmnïau mwy yn cael sylw ar draul microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn y diwydiannau creadigol. Dywedodd yr NUJ yn yr un modd y dylid bod cymorth uniongyrchol i helpu i sefydlu sefydliadau cyfryngau newydd sy'n wirioneddol leol, gyda chredydau treth ar gyfer cyfryngau lleol sy'n ateb dibenion cyhoeddus a ddiffiniwyd yn eglur.

198. Dywedodd Pinkspiration (sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau cyflogwyr) fod angen mwy o gyswllt rhwng cymunedau, grwpiau addysg, darlledwyr a'r Llywodraeth er mwyn i'r cyfryngau ffynnu yng Nghymru:

[81] Tystiolaeth lafar, 13.10.2011
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s3481/13%20October%202011.pdf

"New technologies mean that people can create their own online tv channels for very little, making competition strong and production costs low. This is a great opportunity for people within communities, but also for Broadcasters to link with emerging media/education groups.

"Media training to up skill people is important and support from the broadcasters would be helpful in removing barriers."[82]

199. Dywedodd Port Talbot Magnet (cwmni cydweithredol dielw sy'n rhedeg gwefan newyddion) wrth y grŵp sut roedd grŵp o newyddiadurwyr proffesiynol wedi dod ynghyd, gyda chymorth Canolfan Cydweithredol Cymru, i sefydlu cwmni i lenwi'r bwlch pan wnaeth papur newydd lleol gau. Roedd yn argymell y camau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r materion y mae'r cyfryngau yng Nghymru yn eu hwynebu.

- darparu tîm o fentoriaid i deithio i ardaloedd i helpu i sefydlu prosiectau cyfryngau newydd;
- sefydlu cronfa ganolog i wobrwyo arloesedd yn y cyfryngau.
- darparu cyngor cyfreithiol ac ariannol fforddiadwy;
- sefydlu rhwydwaith o ganolfannau i'r cyfryngau lle gallai newyddiadurwyr gydweithio gyda chydweithwyr drwy'r diwydiant i gynhyrchu newyddion ar gyfer pob cyfrwng;
- sefydlu system achredu ar gyfer gwefannau newyddion lleol o safon.

200. Dywedodd Port Talbot Magnet:

"If government is serious about addressing the problems facing the media industry the answer is simple. We need a national debate about why the media is important for democracy, and real, tangible support for the organisations at the coal face."[83]

201. Cyfeiriodd Golwg hefyd at y camau niferus y gellid eu cymryd i gryfhau a datblygu busnesau cyfryngau newydd yng Nghymru:

- mae angen chwilio am ffyrdd o roi cymorth i gyhoeddiadau a busnesau'r cyfryngau addasu a manteisio ar y dechnoleg newydd. Dim ond cyrff fel y BBC ac S4C sydd â'r arian i allu buddsoddi yn y dechnoleg yn gyflym, ond

[82] Y Wasg 02
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4149/Consultation%20Response%20-%20Media%2002%20-%20Pinkspiration.pdf
[83] Y Wasg 10,
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4157/Consultation%20Response%20-%20Media%2010%20-%20Port%20Talbot%20MagNet.pdf

dylid defnyddio hwn i hyrwyddo mentrau annibynnol a lluosogrwydd yn hytrach nag i feddiannu'r maes;

- caiff cyfraniad economaidd busnesau'r cyfryngau eu hanwybyddu, a gallai helpu cwmnïau traddodiadol y cyfryngau i ddatblygu eu defnydd o dechnoleg newydd helpu busnes yng Nghymru mewn modd ehangach. Mae'r un peth yn wir o ran hybu'r Gymraeg;
- mae bod yn lleol yn bwysig iawn yng Nghymru, fel y gwelwyd o lwyddiant cymharol y papurau bro. Mewn byd sy'n gynyddol fyd-eang, mae hyn yn cynnig cyfle i'r cyfryngau Cymreig a lleol wneud yn well na chwmnïau Prydeinig a rhyngwladol. Mae hyn yn golygu gweithio ar sail leol i fyny, gan gefnogi mentrau a datblygiadau newydd;
- yn hytrach na chanolbwyntio ar deledu a radio lleol, dylid archwilio gwasanaethau gwybodaeth ac adloniant aml-gyfrwng lleol. Drwy gael y gwahanol gyfranwyr traddodiadol i weithio mewn partneriaeth ar y llwyfannau digidol hyn, byddai modd sicrhau amrywiaeth o ran cynnwys a chreu gwasanaethau gwerthfawr i gymdeithas, diwylliant, iaith a ffyniant economaidd.

202. Pwysleisiodd Golwg uchod yr holl gamau holistaidd y mae angen i fusnesau bach eu cymryd er mwyn addasu i dechnolegau newydd:

> "Mae ein pwyslais ar weithredu'n holistaidd, gan weld ffyniant y wasg yn rhan o ddatblygu economaidd, datblygu cymdeithasol a datblygu ieithyddol. Rydym hefyd yn gweld y wasg – newyddiaduraeth geiriau – yn rhan hanfodol o batrwm y cyfryngau yn y dyfodol. Ond mae angen cymorth i ymateb i'r sialensiau technegol a masnachol. Un o'r pethau mwyaf anodd i gwmni bach fel ni yw buddsoddi mewn ymchwil a datblygu technolegol. Mae hefyd yn anodd gwybod pryd i fentro ar dechnoleg sy'n addawol ond heb ei phrofi. Gallai Llywodraeth a'r sector cyhoeddus – prifysgolion er enghraifft – fod â rôl allweddol yn hyn o beth."[84]

203. Yn ôl Rondo Media, mae dosbarthu cynnwys yn allweddol a gallai Llywodraeth Cymru gyfrannu yn hynny o beth:

> "Fe allai Llywodraeth Cymru chware rhan gryfach o ran annog gwasgaru a dosbarthu cynnwys Cymraeg, sy'n un o flaenoriaethau adroddiad yr Athro Hargreaves a strategaeth y diwydiannau creadigol. Yr her i ni i gyd yw creu, dosbarthu ac ymelwa o swmp digonol o gynnwys a bod yn barod i ymateb

[84] Y Wasg 36, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4722/Consultation%20Response%20-%20Media%2036%20-%20Golwg%20360.pdf

i'r newidiadau mewn tueddiadau gwylio sy'n deillio o dechnolegau newydd."[85]

204. Yn yr un modd, gwnaeth Cymdeithas yr Iaith argymhellion ynghylch y camau ymarferol y gellid eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru:

- mae meddalwedd cod agored yn darparu cyfleoedd a fyddai'n galluogi mentrau Cymraeg ar-lein i ffynnu. Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi sy'n ffafrio'r defnydd o feddalwedd cod agored yn y sector cyhoeddus a dylai sefydlu cronfa ddigidol i hyrwyddo prosiectau sy'n trosi'r cynnyrch hwn i'r Gymraeg;
- dylid manteisio ar y cysyniad o 'ddiwylliant rhydd' fel y gellir rhyddhau cynnwys mewn ffordd sy'n galluogi cymaint o bobl â phosibl i ddefnyddio, darllen, gweld a chlywed cynnwys Cymraeg ar-lein. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu gwaith ymchwil ar y defnydd o dechnoleg o'r fath yng Nghymru;
- dylid manteisio ar y cyfleoedd i ddarparu deunydd ar-lein ar gyfer y rheini sy'n dysgu Cymraeg gan y byddai'n cynyddu'r galw am gynnwys Cymraeg cyffredinol yn y cyfryngau. Dylid cefnogi'r ymgyrch hefyd i gael parth '.cymru' i Gymru.

205. Dywedodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wrth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

> "My department prioritises the creative industries on account of their existing size in Wales, their important role in the digital economy, and their recent growth and potential for future growth, particularly within the digital media industries.
>
> "I am aware of the challenges facing the media sector in Wales and the impact these are having across the sector[...]
>
> "The challenge for my department is to help support and safeguard businesses and jobs within the traditional media, while at the same time helping new and existing businesses to adapt and respond to the commercial opportunities offered by new media business models, new technologies and new markets."[86]

---

[85] Y Wasg 16
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4162/Consultation%20Response%20-%20Media%2016%20-%20Rondo.pdf

[86] Y Wasg 41
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4727/Consultation%20Response%20-

206. Yn ogystal â rhoi arolwg Hargreaves ar waith, dywedodd y Gweinidog mai ei blaenoriaethau yw:

- canolbwyntio adnoddau ar y busnesau creadigol hynny sy'n gwerthu neu'n trwyddedu cynnyrch a gwasanaethau i farchnadoedd y tu allan i Gymru;
- sicrhau bod hyfforddiant ac addysg ar gyfer y diwydiannau creadigol yn cael eu cysylltu ag anghenion y sector;
- defnyddio dylanwad y Llywodraeth i lefelu'r cymorth mwyaf gan Ewrop a'r DU i'r sector;
- cyflymu twf busnesau cyfryngau digidol yng Nghymru;
- cynyddu'r effaith y mae caffael sector cyhoeddus yn ei gael ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru;
- sicrhau bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn darparu'r manteision economaidd mwyaf i Gymru;
- monitro gweithgarwch economaidd yn y sector er mwyn galluogi polisi i addasu i gynnwys unrhyw newidiadau.

207. Drwy gymryd camau o'r fath, dywedodd y Gweinidog fod gan ei hadran y dulliau cywir ar waith bellach i gefnogi'r sector mewn modd priodol. Mae'r gweithgareddau y mae ei hadran yn ymgymryd â hwy yn cynnwys:

- rhoi cymorth ariannol i gwmnïau cynhyrchu o Gymru i gynhyrchu rhaglenni ar gyfer comisiynau rhwydwaith a chydgynyrchiadau rhyngwladol;
- treialu Cronfa Datblygu Digidol newydd i alluogi busnesau i wneud y gorau o'u syniadau creadigol drwy lwyfannau digidol;
- gweithio gyda darlledwyr gwasanaeth i'w hannog i gynyddu eu comisiynu rhwydwaith gan gwmnïau o Gymru;
- cynnal dadansoddiad o drefniadau caffael gwasanaethau'r cyfryngau yn y sector cyhoeddus, a chomisiynu gwaith ymchwil pellach i fapio'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

**Cydweithio a chael un ganolfan i'r cyfryngau yng Nghymru**

208. Amlygodd Golwg pa mor bwysig yw bod sefydliadau'r cyfryngau yng Nghymru yn cydweithio ac yn manteisio ar dechnoleg newydd:

---

%20Media%2041%2020Edwina%20Hart%20AM,%20Minister%20for%20Business,%20Enterprise,%20Technology%20and%20Science.pdf

"[...] rhaid i'r cyfryngau amrywiol yng Nghymru weithio'n llawer agosach er mwyn gwarchod a chryfhau'r sector. Mae adnoddau ac arian yn brin gan bawb ond mae cyfle trwy rannu arbenigedd ac adnoddau."[87]

209. Cyfeiriodd Rondo Media at y cyfleoedd i ddarlledwyr a chynhyrchwyr weithio'n agosach ac i ddefnyddio sefydliadau addysg i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru:

"[...] mae'r darlledwyr a'r sector gynhyrchu yn Nghymru yn sicr yn bartneriaid amlwg. Hyd yma, mae ymateb y darlledwyr yng Nghymru wedi bod yn weddol bositif ac maent yn barod i edrych ar y posibiliadau o ryddhau cynnwys ar gyfer y gwasanaethau lleol newydd.

"Mi ddylai fod gan ein sefydliadau addysg ni rôl flaenllaw yn hyn hefyd. Mae Rondo wedi elwa o gyd-weithio gyda sefydliadau fel yr Atrium (gyfranodd adnoddau i ffilmio cynhyrchiad *Passion* Michael Sheen), Prifysgol Aberystwyth (ar y gyfres ddrama *Zanzibar*) a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant (ar Ŵyl y Drindod a Chyngerdd Aberglasne). Mae gan nifer o'r sefydliadau hyn (a rhai eraill fel Prifysgolion Glyndŵr a Chasnewydd) adnoddau ffilmio a darlledu cyfoes a safonol. Mae potensial iddyn nhw ddarparu cynnwys sylweddol ar gyfer y gwasanaethau teledu lleol newydd."[88]

210. Cyfeiriodd Richie Turner yn yr un modd at y ffaith y gallai cysylltiadau cryfach rhwng prifysgolion a chwmnïau'r cyfryngau annog arloesedd yn y sector ac yn economi Cymru:

"For new creative media business models and companies to emerge here in Wales we need to provide creative entrepreneurs with a safe test bed to nurture and incubate their ideas. Wales is far too small a commercial market to just expect new creative media companies to compete globally [...]

"There is plenty of scope within Wales for new media business models to be devised but we must try and provide our creative media entrepreneurs with a solid foundation to build their ideas and companies. Promoting a stronger creative brand Wales internationally would definitely help. Next

[87] Y Wasg 36
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4722/Consultation%20Response%20-%20Media%2036%20-%20Golwg%20360.pdf
[88] Y Wasg 16
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4162/Consultation%20Response%20-%20Media%2016%20-%20Rondo.pdf

develop better creative business support programmes for Welsh creative media graduates to encourage them to stay in Wales and commercialise their ideas. Wales has some of the top university courses in digital media but sadly the vast majority of graduates from these courses take jobs in London straight after graduation. It's a creative brain drain we need to urgently address."[89]

211. Pwysleisiodd hefyd na ddylai polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru beidio ag annog cydweithio rhwng darparwyr y cyfryngau, gan fod sector y cyfryngau eisoes yn rhy fregus yng Nghymru i ymdrin â rhaniadau mewnol.

212. Ar fater cysylltiedig, dywedodd Skillset Cymru fod angen archwilio croesffrwythloni o fewn y diwydiannau creadigol, drwy annog partneriaethau ac arbrofi a thrwy fanteisio ar feysydd profiad sectorau eraill mewn byd digidol sydd wedi'i uno.

213. Cyfeiriodd BBC Cymru at fanteision posibl creu un ganolfan i'r cyfryngau yng Nghymru, fel canolfan ar gyfer cynhyrchu cynnwys sy'n cynnwys y prif ddarlledwyr, cynhyrchwyr annibynnol a sefydliadau hyfforddi academaidd. Nododd y gallai hyn hyrwyddo synergedd a hybu twf economaidd creadigol cynaliadwy yng Nghymru. Roedd BBC Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i ganolfan o'r fath fod yn gost-effeithiol ac iddi sicrhau gwerth am arian i'r BBC.

214. Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig y dylid cwblhau buddsoddiad y BBC ym Mhorth y Rhath i lunio canolfan i'r cyfryngau yng Nghymru y gellid ei chymharu â chanolfannau newydd y BBC ym Manceinion a Glasgow. Cytunodd Cyngor Celfyddydau Cymru y gallai hyn fod yn gam cadarnhaol:

> "We're aware that discussions around the development of the BBC/S4C partnership have floated the possibility of the two organisations co-locating at a single media centre, possibly including ITV. The viability of such an arrangement will be for others to assess. But at a time when significant investment will almost certainly be needed to develop broadcasters' technological infrastructure, this would seem to offer many potential benefits."[90]

---

[89] Y Wasg 29
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4715/Consultation%20Response%20-%20Media%2029%20-%20University%20of%20Wales%20Global%20Academy.pdf
[90] Y Wasg 44
http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4730/Consultation%20Response%20-%20Media%2044%20-%20Arts%20Council%20for%20Wales.pdf

215. Cytunodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth y gallai hyn fod â photensial aruthrol:

> "I think that it would be an enormous pity not to extract full advantage from that development just over the road from us. It is a large site and a considerable investment, but if it were to be allowed to remain as just an investment in bricks and mortar, just a location, there would have been a collective failure on the part of broadcasters, Government and everyone else. It opens up the possibility for us to think very imaginatively about how Wales becomes a centre, not just in terms of bricks and mortar, but in terms of the skills of people that can be fostered by such investment. The BBC's role in making these things come to fruition is, of course, absolutely central, but it is not just about the BBC; it is about the wider broadcasting and creative industry community getting together with Government to sit down to think about this. I know that there would be sensitivities about things being centralised in Cardiff and so on, but it does give us the opportunity to introduce a bit of critical mass in a UK context to the Welsh creative industries—if we can do it right. At the moment, I do not think that that investment has reached anywhere near its full potential."[91]

216. Fodd bynnag, roedd Ron Jones yn fwy ansicr ynghylch y buddion:

> "Clusters of companies in a particular industry are very beneficial, but you cannot get the natives to all camp on the same site. They have to do it by a process of accident or determination. I do not think that it is the role of Government to tell people that that is where they ought to be."[92]

**Hawliau eiddo deallusol**

217. Tra bo rhai tystion fel BECTU wedi galw am gadw'r system bresennol ar gyfer rheoleiddio a gorfodi hawliau eiddo deallusol, roedd tystion eraill yn gweld posibilrwydd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru drwy lacio'r rheolau hynny.

218. Pwysleisiodd Skillset Cymru fod angen deall a manteisio ar hawliau eiddo deallusol o fewn y cyfryngau creadigol mewn amgylchedd digidol.

219. Yn ôl Richie Turner (wrth amlygu hyn fel blaenoriaeth i Gymru yng nghyd-destun process y *Bil Cyfathrebu*):

---

[91] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf
[92] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

"Firstly Wales must seek to benefit from changes to intellectual property rights (IPR). The Bill needs to reflect the global market for creative content to enable producers to more easily commercially exploit that content in a range of platforms and markets.

"However it is vital that any relaxation of IPR laws and regulations within Wales also encourages the involvement of the private sector. We need to make sure Welsh PSBs do not dominate the new media market. Wales should create an environment where small, creative and independent digital media companies can gain access to content commissioned by our PSBs and then allow these companies to freely innovate in terms of new products and services they may wish to provide." [93]

220. Dywedodd BBC Cymru wrth y Grŵp yn ei thystiolaeth ysgrifenedig:

"BBC Wales will also explore new ways of enabling others to benefit from its investment in content and innovation – through increasing access to content, by supporting initiatives such as local television and by sharing technical platforms and expertise.

"[...] the BBC has unique responsibilities in sustaining a diverse public space in Wales. It will seek to be more open and ambitious in the way it partners with others for the benefit of audiences and national life, by adopting a more proactive approach to reaching out to other organisations.

"BBC Wales can leverage its scale, funding, creativity, innovation and heritage to deliver considerable additional value to Wales' media and cultural sectors. At a time of constrained finances there is an even greater imperative to focus on creative partnerships and collaborations."[94]

221. Yn yr un modd, dywedodd Golwg:

"Mae Cymru'n dal i fod ychydig yn naïf ynglŷn a photensial technoleg newydd a chryfder y we yn arbennig. O'i ddefnyddio'n iawn, gall y we gael

[93] Y Wasg 29, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4715/Consultation%20Response%20-%20Media%2029%20-%20University%20of%20Wales%20Global%20Academy.pdf
[94] Y Wasg 24, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4710/Consultation%20Response%20-%20Media%2024%20-%20BBC%20Wales.pdf

ei ddefnyddio i gryfhau'r cyfryngau ehangach gan gynnwys darlledu traddodiadol a'r cyfrwng print."[95]

222. Cyfeiriodd Cyngor y Celfyddydau hefyd at y pryderon a fynegwyd gan yr Athro Hargreaves ynghylch y diffyg gwybodaeth ymysg busnesau bach a chanolig am faterion eiddo deallusol, a nododd bod hyn yn hynod o berthnasol i Gymru:

> "Prof. Hargreaves also notes gaps in knowledge among Small to Medium Enterprises about IP, and indeed a lack of easy, affordable access to IP services. The capacity of young and emergent companies – the sort of business that Wales needs to encourage – need this assistance if they are to grow their businesses. These are issues that we feel the Welsh Government should consider."[96]

223. Yn ôl Asiantaeth Ffilm Cymru:

> "While capital investment is the first step to ensuring accessibility, this needs to be matched with an investment in up-skilling businesses and entrepreneurs to trade in a world where IP is common currency, but still invisible on a traditional balance sheets: specialist business service providers (accountants and lawyers in particular) need to reach out into areas traditionally serviced by London based companies, and a Welsh stimulus to IP trading and exchange would maximize the opportunities offered by the new infrastructure.
>
> "Offering to host the development of models for the Copyright Exchange proposed by the Hargreaves IP review would ensure Wales is clearly positioned as a forward thinking globally engaged administration and offer an unrivalled centre of excellence in the country. Benefits would flow to SMEs and micro businesses reliant on effective IP trading, galvanizing a sector into engaging across traditional delivery format boundaries (TV and film, games and TV, music and film makers all require access to this type of market place to grow)."[97]

224. Dywedodd swyddog ar ran Panel y Sector Diwydiannau Creadigol:

---

[95] Y Wasg 36, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4722/Consultation%20Response%20-%20Media%2036%20-%20Golwg%20360.pdf

[96] Y Wasg 44, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4730/Consultation%20Response%20-%20Media%2044%20-%20Arts%20Council%20for%20Wales.pdf

[97] Y Wasg 15, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4161/Consultation%20Response%20-%20Media%2015%20-%20Film%20Agency%20for%20Wales.pdf

> "Since its inception, the panel has looked at IP and how we can better protect creative businesses across the whole of the creative industries sector. It has been a real priority for the sector panel. The ability for businesses in Wales to retain and exploit IP and to understand how to do that are priorities that the panel has put forward to the Minister. We are looking to roll out a number of different options to support companies to do that better. That will be done in partnership with the Arts Council."[98]

**Sgiliau a hyfforddiant**

225. Yn ôl Skillset Cymru, y cyngor sgiliau sector ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru, mae'n gwneud gwaith ymchwil cynhwysfawr ar y diwydiannau creadigol, sgiliau a'r ddarpariaeth hyfforddiant. Mae'n ymwybodol bod y sector yng Nghymru, fel y mae mewn mannau eraill, yn cael ei effeithio gan amrywiaeth o faterion byd-eang, gan gynnwys pa mor gyflym y mae technoleg yn newid a'r awydd am lwyfannau newydd ar gyfer cynnwys. Dywedodd Skillset Cymru ei fod yn cydnabod mai ei her felly yw sicrhau bod gweithlu presennol y diwydiannau creadigol, a gweithlu'r dyfodol, yng Nghymru wedi'i gymhwyso i ymateb i unrhyw newidiadau. Dywedodd Skillset Cymru hefyd:

- ei bod yn bwysig iawn bod gan weithlu Cymru y sgiliau angenrheidiol i fanteisio ar gyfleoedd digidol. Mae datblygu a manteisio ar sgiliau aml-lwyfan wrth ymateb i gydgyfeiriant yn hanfodol yn hyn o beth;
- bod angen sicrhau bod gan newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau creadigol sgiliau 'y byd go iawn', fel craffter busnes a sgiliau digidol cyffredinol;
- y dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi pwysigrwydd strategol i'r diwydiannau creadigol, gan roi blaenoriaeth i anghenion sgiliau a datblygu'r gweithlu.

226. Dywedodd Skillset fod adroddiad Hargreaves yn nodi: '[the] picture is quite positive with regard to training issues on the media side of the creative industries […] With a good supply of new initiatives and impressive examples of collaboration between employers and educational institutions'. Dywedodd hefyd: '[Skillset Cymru is] particularly keen to take our HE agenda forward in Wales in partnership with the new Creative Industries panel and feels that the work to be achieved this year is of particular importance'.

227. Mae mentrau allweddol Skillset yn cynnwys:

---

[98] Tystiolaeth lafar, 12.01.2012, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s5294/12%20January%202012.pdf

- *Fframwaith Hyfforddiant Skillset Cymru* (menter ar y cyd rhwng Skillset, S4C, TAC a Llywodraeth Cymru i gefnogi anghenion sgiliau a hyfforddi sector cynhyrchu annibynnol Cymru a'r diwydiannau creadigol ehangach yng Nghymru);
- y *Prosiect Sgiliau i'r Economi Ddigidol* (rhaglen hyfforddiant dros bedair blynedd gyda £2.7 miliwn gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a chyllid gan S4C, TAC a Skillset Cymru). Ei ddiben yw mynd i'r afael â'r anghenion sgiliau yn niwydiant y cyfryngau creadigol ledled gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

228. Fodd bynnag, mynegodd Skillset bryderon ynghylch cyllido rhai o'i gynlluniau hyfforddi yn y dyfodol ar sail y gostyngiadau yng nghyllideb S4C:

> "We would like to note in particular that a large percentage of Skillset Cymru's investment in the creative industries in Wales is made of the S4C funding and the Teledwyr Annibynnol Cymru levy. Indeed, this forms the basis of almost all CPD training that exists for the creative industries in Wales.
>
> "With the recent S4C and BBC governance announcement we need to ensure that skills will remain at the top of the broadcasters' agenda and that their investment in our projects remains as it is. Our ESF project in particular, is over 4.5 years – up until 2015 and is dependent on the S4C and TAC match, so guaranteeing that is a priority and we would welcome the Welsh Government's support in this respect."[99]

229. Yn ôl TAC:

> "Increasing use of online services by the consumer brings both benefits and challenges – there is the potential for proliferation of Wales-originated content of all kinds, but there is also the need to ensure the rights skills are developed to ensure that the industry can keep pace with technological and market developments."[100]

230. Amlygodd yr NUJ yn yr un modd werth sgiliau, gan ddatgan, oherwydd y crebachu a'r cydgyfeirio yn y cyfyngau: 'training becomes ever more important as an issue for the beleaguered workforce'.

---

[99] Y Wasg 33, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4719/Consultation%20Response%20-%20Media%2033%20-%20Skillset%20Cymru.pdf

[100] Y Wasg 28, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4714/Consultation%20Response%20-%20Media%2028%20-%20Teledwyr%20Annibynnol%20Cymu%20TAC.pdf

231. Fodd bynnag, roedd beirniadaeth ynghylch hyn. Dywedodd TAC fod angen strategaeth fel rhan o *Cynllun Cyflawni Cymru Ddigidol* i feithrin y sgiliau ar gyfer diwydiannau'r cyfryngau creadigol (ar hyn o bryd, ymddengys mai cyfeirio at sgiliau TGCh a wna yn unig). Mae TAC hefyd yn beirniadu diffyg strategaeth Llywodraeth Cymru yn hyn o beth:

> "The production of content is becoming ever more complex, with the growing multiskilling of staff to meet tighter budget costs, and the increase in the need for the right digital technology and software skills for multiplatform content. The training network needs to be simplified and managed more strategically, to ensure Wales is a centre of excellence going forward. This was a point made by Professor Hargreaves in his report.
>
> "The Welsh Assembly Government needs to look to establishing a clearer overall strategy for training the creative industries in Wales – at the moment there are several schemes and organisation in some worthwhile initiatives, but currently they are not working to one clear skills development strategy."[101]

232. Fodd bynnag, cyfeiriodd Grŵp Papurau Newydd Tindle yn benodol at hyfforddiant ar gyfer newyddiaduraeth print, gan ddweud y dylai cyfleoedd fod ar gael i archwilio: 'a link-up between the media and training bodies to offer apprenticeships/work experience, which could lead to a reduction in heavy newspaper staffing costs'.

233. Cydnabu'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth:

> "I do not think that we disagree with the fact that there is a lot to be done in terms of the training agenda—it is one of the agenda items that they grappling with in the sector. You made a good point, because it applies not only to small firms in the creative industries, but to other specialist areas where they have difficulties with affording the training, developing training and so on. That is an issue that we will have to look at."[102]

234. Ymhelaethodd Ron Jones:

---

[101] Y Wasg 28, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4714/Consultation%20Response%20-%20Media%2028%20-%20Teledwyr%20Annibynnol%20Cymu%20TAC.pdf
[102] Tystiolaeth lafar, 07.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4634/7%20December%202011.pdf

> "The Minister has asked us to look into the potential for changing the education and skills training systems so that they work with these smaller businesses. One example is the possibility of looking at a system of apprenticeship where small companies can work if they have the support of our higher and further education institutes, to run in parallel with the practical work. There is sometimes a tendency for us to confuse education, skills training and on-the-job training. Getting all of those right is an important part of this.
>
> "Potential exists, through new European procurement rules that allow, in the case of public expenditure, for some of these things to be included in an agreement. However, as the Minister has said, this is an entirely new area for the Government to look at in this form, and I fear that the work will be long and painful."[103]

### Ein barn ni

#### *Band eang*

235. Mewn perthynas â darpariaeth band eang, rydym yn derbyn yn llwyr y dystiolaeth gan dystion sy'n nodi bod sicrhau bod gan Gymru ddarpariaeth band eang ddigonol yn hanfodol i ddefnyddwyr a darparwyr y cyfryngau. Heb hyn, mae'n anodd gweld sut y gall cwmnïau Cymru gystadlu yn y dyfodol. Rydym yn cefnogi'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu'r mater hwn a byddem yn annog y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i sicrhau bod band eang yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru

#### *Adolygiad Hargreaves*

236. Rydym yn cydnabod bod nifer o dystion o'r farn y bu diffyg cynnydd o ran gweithredu casgliadau adolygiad Hargreaves. Fodd bynnag, rydym yn nodi sylwadau Cadeirydd Panel y Sector Diwydiannau Creadigol, a ddywedodd bod y rhan fwyaf o'r argymhellion wedi eu gweithredu neu yn y broses o gael eu gweithredu.

237. Mae'n ymddangos, felly, bod y gwahaniaeth hwn rhwng safbwyntiau wedi codi oherwydd diffyg cyfathrebu ynghylch cynnydd y Panel. Rydym yn credu y gellid mynd i'r afael â hyn drwy gyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog am gynydd o ran gweithredu argymhellion Hargreaves. Dylai hyn gael ei gyfathrebu i randdeilieid.

---

[103] Tystiolaeth lafar, 07.12.2011, http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s4634/7%20December%202011.pdf

### *Cefnogi busnesau a meithrin arloesedd*

238. Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan nifer o dystion am yr angen am gefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer busnesau newydd a modelau busnes newydd. Rydym wedi cael sicrwydd gan ymrwymiad y Gweinidog fod y prosesau cywir ar waith bellach i gefnogi'r sector yn briodol.

239. Byddem yn annog Panel y Sector Diwydiannau Creadigol i barhau gyda'i waith ac, ar adeg briodol, i ddechrau datblygu strategaeth ar gyfer cynorthwyo busnesau newydd yng Nghymru, er mwyn annog arloesedd ac i feithrin modelau busnes newydd. Dylai hyn gynnwys ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch.

### *Hawliau eiddo deallusol*

240. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth bod defnydd effeithiol o hawliau eiddo deallusol yn peri pryder i nifer o'r tystion. Rydym yn rhannu'r farn hon ac felly gofynnwn i Lywodraeth Cymru fonitro cynigion gan Lywodraeth y DU i newid cyfreithiau sy'n ymwneud â hawliau eiddo deallusol a, fel y bo'n briodol, i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn nodi y dylai unrhyw newidiadau fod yn addas ar gyfer anghenion Cymru.

### *Sgiliau a hyfforddiant*

241. Rydym yn nodi'r dystiolaeth bod lefelau priodol o sgiliau a hyfforddiant yn hanfodol er mwyn i'r sectorau cyfryngau ffynnu. Rydym hefyd yn nodi'r dystiolaeth bod Skillset wedi cyflwyno nifer o fentrau effeithiol yn y meysydd hyn ac rydym yn eu canmol am eu gwaith.

242. Rydym yn cydnabod y pryderon y gallai gostyngiad yng nghyllideb S4Cgael effaith andwyol ar ddarpariaeth hyfforddiant sydd ar hyn o bryd yn cael ei ariannu ar y cyd gan S4C. Byddem yn annog Panel y Sector Diwydiannau Creadigol i fonitro'r mater hwn.

243. Rydym yn nodi ac yn cefnogi barn y Gweinidog ar bwysigrwydd sgiliau a hyfforddiant a byddem yn annog Panel y Sector Diwydiannau Creadigol, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, i weithio tuag at ddatblygu strategaeth hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y sectorau cyfryngau.

**Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fwrw ymlaen gydag argymhellion adolygiad Hargreaves, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gynnydd yn rheolaidd.**

**Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gyfathrebu pwrpas a rôl ei phanel Sector Diwydiannau Creadigol i randdeiliaid.**

**Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau addysg uwch, i annog arloesi ac i feithrin modelau busnes newydd.**

**Argymhelliad 22: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro cynigion gan Lywodraeth y DU i newid cyfreithiau mewn perthynas â hawliau eiddo deallusol a dylai wneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn nodi y dylai unrhyw newidiadau fod yn addas ar gyfer anghenion Cymru.**

**Argymhelliad 23: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu dull strategol o ddarparu hyfforddiant, ochr yn ochr â'i bolisïau eraill, gan gynnwys y Cynllun Cyflawni Cymru Ddigidol.**

## Tystion

Darparodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn ar http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieIssueDetails.aspx?IId=1787&Opt=3

*13/10/2011*

| | |
|---|---|
| Yr Athro Ian Hargreaves | Prifysgol Caerdydd |
| Yr Athro Steve Blandford | Canolfan Astudio'r Cyfryngau a Diwylliant mewn Cenhedloedd Bach, Prifysgol Morgannwg |
| Euryn Ogwen Williams | |

*03/11/2011*

| | |
|---|---|
| Rhodri Talfan Davies, Cyfarwyddwr | BBC Cymru Wales |
| Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni | ITV Cymru |
| Huw Jones, Cadeirydd | S4C |
| Terry Mann, Rheolwr Gorsaf | Radio Cymunedol Cymru |
| John Geraint, Cyfarwyddwr Creadigol | Green Bay |
| Iestyn Garlick, Cadeirydd | Teledwyr Annibynnol Cymru |
| Gareth Williams | Teledwyr Annibynnol Cymru |

*17/11/2011*

| | |
|---|---|
| Martin Shipton | Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr |
| Meic Birtwistle | Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr – Cymru |
| David Donovan | Swyddog Cenedlaethol Cymru, yr Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograffeg a Theatr (BECTU) |
| Dr Andy Williams | Prifysgol Caerdydd |
| Gwawr Hughes, Cyfarwyddwr | Skillset Cymru |

| | |
|---|---|
| Gwyn Roberts, Cyfarwyddwr | Cube Interactive |
| Owain Schiavone, Prif Weithredwr | Golwg 360 |
| Richard Turner, Pennaeth Marchnata a Chysylltiadau Allanol | Rhaglen Arloesi'r Academi Fyd-eang |
| *01/12/2011* | |
| Aled Eirug | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| Hywel Wiliam | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| Alan Edmunds | Media Wales |
| Bev Thomas | Tindle Newspapers |
| Barrie Phillips-Jones | NWN Media |
| Bethan Williams | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Colin Nosworthy | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Dr Simon Brooks | Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| *07/12/2011* | |
| Edwina Hart AC, Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | Llywodraeth Cymru |
| Natasha Hale, Pennaeth Diwydiannau Creadigol yr Adran Busnes, Menter Technoleg a Gwyddoniaeth | Llywodraeth Cymru |
| Ron Jones, Cadeirydd Panel y Diwydiannau Creadigol a Chadeirydd Gweithredol Tinopolis ccc | Llywodraeth Cymru |
| *12/01/2012* | |
| Rhodri Williams, Cyfarwyddwr Ofcom yng Nghymru | Ofcom |

| | |
|---|---|
| David Mahoney, Cyfarwyddwr y Polisi ar Gynnwys, Ofcom | Ofcom |
| Ron Jones, Cadeirydd Panel y Diwydiannau Creadigol | Panel y Diwydiannau Creadigol |
| Natasha Hale, Pennaeth Sector y Diwydiannau Creadigol | Sector y Diwydiannau Creadigol |
| Huw Lewis AC, Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth | Llywodraeth Cymru |
| John Howells, Cyfarwyddwr yr Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth | Llywodraeth Cymru |
| Nick Capaldi, Prif Weithredwr | Cyngor Celfyddydau Cymru |

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn ar
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1787

| *Sefydliad* | *Cyfeirnod* |
|---|---|
| Dr Andy Williams | Media 01 |
| Pinkspiration | Media 02 |
| Pam Price-Thomas | Media 03 |
| Neil Taylor LL.M, MCIPR | Media 04 |
| Ysgol Newyddiaduriaeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd | Media 05 |
| Canolfan Astudio'r Cyfryngau a Diwylliant mewn Cenhedloedd Bach, Prifysgol Morgannwg | Media 06 |
| Cyngor Undebau Llafur Dyffryn Clwyd | Media 07 |
| Yr Athro T P O'Malley | Media 08 |
| Channel 4 | Media 09 |
| Port Talbot MagNet | Media 10 |
| Town and Country Broadcasting | Media 11 |
| Prifysgol Caerdydd | Media 12 |
| Ymddiriedolaeth Carnegie UK | Media 13 |
| Y Sefydliad Darlledu Uwch | Media 14 |
| Asiantaeth Ffilm Cymru | Media 15 |
| Rondo Media | Media 16 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | Media 17 |
| Telesgop | Media 18 |
| Yvonne Hurcombe | Media 19 |
| Carol Byrne Jones | Media 20 |
| EQUITY | Media 21 |
| Euryn Ogwen Williams | Media 22 |
| Green Bay | Media 23 |
| BBC Cymru | Media 24 |

| | |
|---|---|
| ITV Cymru | Media 25 |
| S4C | Media 26 |
| GTfm, Radio Cymunedol Cymru | Media 27 |
| Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) | Media 28 |
| Academi Fyd-eang Prifysgol Cymru | Media 29 |
| Cangen Caerdydd a De-ddwyrain Cymru - NUJ | Media 30 |
| NUJ Cymru | Media 31 |
| Yr Undeb Darlledu, Adloniant, Sinematograffeg a Theatr (BECTU) | Media 32 |
| Skillset Cymru | Media 33 |
| Dr Andy Williams – Prifysgol Caerdydd | Media 34 |
| Cube Interactive | Media 35 |
| Golwg 360 | Media 36 |
| IWA | Media 37 |
| Tindle Newspapers Cyf | Media 38 |
| NWN Media | Media 39 |
| Cymdeithas yr Iaith Gymraeg | Media 40 |
| Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth | Media 41 |
| Ofcom | Media 42 |
| Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth | Media 43 |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Media 44 |
| Dalen Newydd Cyf | Media 45 |